



**Cynllun  
Datblygu  
Lleol** 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2021

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

# Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Drafft

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English



[www.cdllcaerdydd.co.uk](http://www.cdllcaerdydd.co.uk)



02920 872087



[CDL@caerdydd.gov.uk](mailto:CDL@caerdydd.gov.uk)



**Cyngor Caerdydd a Levett-Therivel**

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft o Adolygiad Cynllun Datblygu  
Lleol Caerdydd: Adroddiad Cwmpasu**

**Mai 2021**

## Cynnwys

<b>1. Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)</b>	
1.1 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd (Tasg A1)	2
1.2 Arfarniad cynaliadwyedd integredig	3
<b>2. Cyd-destun polisi (Tasg A2)</b>	<b>6</b>
2.1 Cyd-destun cenedlaethol	6
2.2 Cyd-destun rhanbarthol	9
2.3 Cyd-destun lleol	10
<b>3. Cyd-destun cynaliadwyedd (Tasg A3)</b>	<b>11</b>
3.1 Mynediad, cydraddoldeb a phoblogaeth	12
3.2 Ansawdd aer	19
3.3 Bioamrywiaeth, fflora a ffawna	23
3.4 Newid yn yr hinsawdd	28
3.5 Treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y Gymraeg	34
3.6 Economi	39
3.7 Iechyd a llesiant	44
3.8 Tir, pridd a mwynau	48
3.9 Tirwedd a mannau agored	53
3.10 Gwastraff	58
3.11 Dŵr a llifogydd	60
<b>4. Problemau a materion cynaliadwyedd presennol (Tasg A4)</b>	<b>64</b>
<b>5. Fframwaith ACI (Tasg A5)</b>	<b>68</b>
<b>6. Y camau nesaf</b>	<b>74</b>

## 1. Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

Yr adroddiad cwmpasu hwn yw'r cam cyntaf yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Caerdydd sy'n datblygu. Mae'r adran hon yn trafod y CDLIN yn gyntaf ac yna proses yr ACI.

### 1.1 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd (Tasg A1)

Dinas Caerdydd yw prifddinas Cymru a'i dinas fwyaf, gyda phoblogaeth o tua 367,000. Dyma brif ganolfan fasnachol Cymru, cartref i Lywodraeth Cymru, ac i lawer o sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, a chyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Mae Ffigur 1.1 yn dangos Cyngor Caerdydd, sef yr ardal a gwmpesir gan CDLIN Caerdydd.



**Ffigur 1.1 Caerdydd a'r siroedd cyfagos**

Mabwysiadwyd CDLI presennol Caerdydd yn 2016, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod amser 2006 - 2026. I sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyfredol, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddechrau adolygiad llawn ar eu CDLlau o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu. Disgwylir yr amserlen ganlynol ar gyfer y CDLIN:

Lansio'r CDLIN	Mai 2021
Paratoi Opsiynau Strategol	Mehefin – Hydref 2021
Ymgysylltu ar yr opsiynau Strategol	Tachwedd 2021 – Chwefror 2022
Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir	Mawrth 2022 – Awst 2022
Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir	(Hydref - Tachwedd 2022)
Paratoi'r Cynllun Adneuo	Tachwedd 2022 – Awst 2023
Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo	(Hydref - Tachwedd 2023)
Cyflwyno'r CDLIN i'w archwilio	Mawrth 2024

## 1.2 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Diben yr arfarniad cynaliadwyedd integredig (ACI) yw nodi effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sylweddol tebygol y CDLIN, ac awgrymu mesurau i leihau unrhyw effeithiau negyddol a manteisio i'r eithaf ar y rhai cadarnhaol. Mae'r ACI yn helpu i feithrin proses fwy cynhwysol a thryloyw o lunio Cynllun Datblygu Lleol, ac i sicrhau bod y cynllun yn cael ei integreiddio â pholisïau eraill.

Mae adrannau 2 - 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<sup>1</sup> yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy a gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Adran 39 y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol<sup>2</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n cynhyrchu CDLI gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy; ac mae Adran 19(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfarnu cynaliadwyedd eu cynlluniau.

Mae'r ACI hwn yn cynnwys:

- **Arfarniad cynaliadwyedd / asesiad amgylcheddol strategol (AC/AAS)** fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004<sup>3</sup> ('Rheoliadau AAS') a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 – mae Tabl 1.1 yn dangos y gofynion adrodd ar gyfer AC/AAS a sut mae'r adroddiad hwn yn eu cyflawni;
- **Asesiad cydraddoldeb** fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- **Y Gymraeg.** Mae Caerdydd Ddwieithog yn cynnal Asesiad o Effaith y CDLIN ar y Gymraeg, a bydd yr ACI hwn yn defnyddio canfyddiadau allweddol o'r asesiad hwnnw; a
- **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**<sup>4</sup>

Mae hefyd yn cyfeirio at yr **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** gofynnol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Camau'r ACI yw:

- A. Cwmpasu
- B. Asesu dewisiadau amgen
- C. Asesu'r Cynllun Adnewo a pharatoi'r Adroddiad Cynaliadwyedd
- D. Ymgynghori, archwilio a mabwysiadu'r cynllun
- E. Monitro.

Yn ei dro, mae'r cam cwmpasu (Cam A) – y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef - wedi'i rannu'n:

- A1. Amlinellu cynnwys a phrif amcanion y cynllun
- A2. Nodi ac adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol eraill a fydd yn llywio'r cynllun
- A3. Casglu gwybodaeth sylfaenol am yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol presennol a thebygol yn y dyfodol ar y raddfa ofodol berthnasol ar gyfer y cynllun
- A4. Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r cynllun
- A5. Datblygu fframwaith ACI y gellir arfarnu'r cynllun yn ei erbyn
- A6. Paratoi ac ymgynghori ar adroddiad cwmpasu'r ACI<sup>5</sup>.

---

<sup>1</sup> <https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-English.pdf>

<sup>2</sup> [www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents)

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made>. Hefyd Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Gadael yr UE) 2019, <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/245/regulation/2/made>.

<sup>4</sup> Mae'r dull integredig hwn o arfarnu yn gyson â'r cyngor sydd yn nrafft ymgynghori'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 <https://llyw.cymru/y-llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-drafft-argraffiad-3>


<sup>5</sup> Ibid.

**Tabl 1.1 Gofynion adroddiad cynaliadwyedd**

Gofyniad o dan Reoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	Lle y'i trafodir yn yr adroddiad cwmpasu hwn
1. Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen, a'i berthynas (os oes un) â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.	Mae Pennod 1 yn trafod ardal y cynllun a'r amserlen. Nid yw'r cynnwys a'r prif amcanion ar gael eto.
2. Yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol pe na weithredir y cynllun neu'r rhaglen.	Pennod 2
3. Nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol.	Pennod 3
4. Unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar warchod adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.	Nid yw ardaloedd y mae'r cynllun yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt yn hysbys eto
5. Yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, lefel gymunedol neu lefel Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen	Pennod 4
6. Yr amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wrth ei baratoi.	Pennod 2
7. Mae'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronol a synergaid, ar faterion gan gynnwys (a) bioamrywiaeth; (b) poblogaeth; (c) iechyd pobl; (ch) ffawna; (d) fflora; (dd) pridd; (e) dŵr; (f) aer; (ff) ffactorau hinsoddol; (g) asedau perthnasol; (h) treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol; (i) tirwedd; ac (l) y berthynas rhwng y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (l).	Mae Pennod 5 yn cynnig amcanion ACI
8. Mae'r mesurau a ragwelir i atal, lleihau a chymaint ag y bo modd, wrthbwysu unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd o weithredu'r cynllun neu raglen.	Ddim ar gael eto – cânt eu cwmpasu mewn camau dilynol o'r ACI.
9. Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau eraill yr ymdriniwyd â hwy, a disgrifiad o sut y cafodd yr asesiad ei gynnal gan gynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth lunio'r wybodaeth ofynnol.	
10. Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir ynghylch monitro yn unol â rheoliad 17.	
11. Crynodeb nad yw'n dechnegol o'r wybodaeth a ddarperir o dan baragraffau 1 i 9.	

Mae Ffigur 1.2, o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru, yn dangos sut mae'r camau ACI yn cyd-fynd â chamau llunio cynlluniau. Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn am wyth wythnos, yn hytrach na'r lleiafswm o bump.





Ffigur 1.2 Cysylltiadau rhwng camau'r CDLIN a chamau'r ACI<sup>6</sup>

### Anawsterau a gafwyd

Paratowyd drafft cyntaf o'r adroddiad hwn yng Ngwanwyn 2020 ond bu oedi ar ei gyhoeddi oherwydd pandemig y coronafeirws. Nid yw sawl agwedd ar fonitro blynyddol, er enghraifft ansawdd aer, y defnydd o dir cyflogaeth a disgwyliad oes, wedi'u cynnal yn ystod y pandemig. Mae'r pandemig wedi

<sup>6</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf>

newid sawl agwedd ar fywyd yn y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys sut rydym yn gweithio, teithio ac addysgu ein plant: nid oedd yr holl wybodaeth hon ar gael erbyn i'r adroddiad cwmpasu diweddaraf hwn gael ei baratoi. Bydd i Brexit hefyd lawer o effeithiau nad ydynt wedi eu deall eto. Yn gyffredinol nid oes llawer o wybodaeth am fioamrywiaeth a gwastraff annomestig yng Nghaerdydd.

## 2 Cyd-destun polisi (Tasg A2)

Mae'r Gyfarwydddeb AAS yn gofyn am ddisgrifiad o berthynas "[y cynllun] â chynlluniau neu raglenni eraill" a "Yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, gymunedol neu genedlaethol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried wrth ei baratoi" (Atodiad Ia ac e)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n datblygu yn cael ei lywio a'i lunio gan lawer o gynlluniau a pholisïau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd. Mae'r bennod hon yn trafod y cynlluniau a'r polisïau allweddol sy'n effeithio ar y CDLIN.

Acronymau a ddefnyddir isod:

ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
CdLI	Cynllun Datblygu Lleol
FfDC	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CDS	Cynllun Datblygu Strategol

### 2.1 Cyd-destun cenedlaethol

Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Mae i'r ddeddf saith Nod Llesiant ac mae'n hyrwyddo pum Ffordd o Weithio (Ffigur 2.1) Mae'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol greiddiol y Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig, mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLIN a'r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant Lleol. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 5.

Nod **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yn anelu at ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i CDLlau hyrwyddo datblygu



Ffigur 2.1 Nodau a Ffyrd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>7</sup>

<sup>7</sup> <https://futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>



cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, "at ddiben sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru". Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i CDLlau fod yn cydymffurfio'n gyffredinol ag unrhyw FfDC neu CDS sy'n cynnwys ardal yr awdurdod lleol. Ar ddiwedd 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad ar sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a all baratoi CDSau<sup>8</sup>, ac ar baratoi CDSau<sup>9</sup>.

Mae'r **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn strategaeth ofodol genedlaethol 20 mlynedd newydd. Mae FfDC drafft mis Medi 2020 yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol, ac fe'i gelwir yn 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040'. Mae'n cefnogi datgarboneiddio a darparu ynni adnewyddadwy; darparu tai yn y mannau cywir; lleoedd iachach; ecosystemau cryfach a gwell bioamrywiaeth; ac economi sy'n sicrhau ffyniant i bawb. Mae'n nodi Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd fel ardal dwf genedlaethol. Mae Polisi 33 yr FfDC drafft yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ac yn ddinas graidd ar lwyfan y Deyrnas Gyfunol. Mae'n disgwyl i Gaerdydd gadw ac ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos ac ar gyfer arian. Ym Mholisi 34, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las i'r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth<sup>10</sup>. Mae'r FfDC drafft wedi'i osod yn y Senedd ar gyfer craffu arno, a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2021. Trafodir CDS Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ymhellach yn Adran 2.2.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10)**<sup>11</sup> sy'n integreiddio saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae hefyd yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol. Mae Ffigur 2.2 yn crynhoi'r canlyniadau creu lleoedd a geisir gan Bolisi Cynllunio Cymru.

Mae dogfen ganllaw Gorffennaf 2021 "**Adeiladu Lleoedd Gwell**" yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu gweithredu yn y cyfnod adfer ar ôl pandemig y coronafeirws. Mae'n nodi wyth mater:



**Ffigur 2.2 Canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru**

<sup>8</sup> <https://llyw.cymru/rheoliadau-i-sefydlu-cyd-bwyllgorau-corfforedig>

<sup>9</sup> <https://llyw.cymru/sefydlu-rheoliadau-cynllunio-gwlad-thref-cynllun-datblygu-strategol-cymru-2021>

<sup>10</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf>

<sup>11</sup> <https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru>

1. Aros yn lleol: galluogi pobl i fyw mewn cartrefi ynni effeithlon sydd wedi'u lleoli'n dda a'u cynllunio'n dda, darparu cartrefi fforddiadwy newydd, cynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi lleol, creu cymdogaethau hygyrch a deniadol
2. Teithio llesol: lleihau'r angen i deithio, parhau i symud at foddau teithio cynaliadwy a llesol
3. Adfywio canol ein trefi: ymagweddau hyblyg a newydd o ymdrin â chanolfannau manwerthu a masnachol, ailasesu rôl a swyddogaeth ardaloedd siopa sefydledig, cynllunio ar gyfer defnyddio mannau agored yng nghanol trefi, ystyried ystod ehangach o ddefnyddiau yng nghanol trefi
4. Lleoedd digidol: gwelliannau i gysylltedd digidol
5. Newid arferion gwaith: ail-archwilio rhagolygon economaidd a dyraniadau cyflogaeth, cymorth i weithleoedd hyblyg
6. Ail-ddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru, gan nodi'r angen i gadw pellter cymdeithasol a chymorth i ddiwydiannau cysylltiedig
7. Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a gwydnwch ecolegol: galluogi a darparu seilwaith gwyrdd
8. Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn helpu i sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol; Llywodraeth Cymru i lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy; a CNC i gynhyrchu Datganiadau Ardal er mwyn helpu i weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

Mae **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol 2017**<sup>12</sup> yn nodi tair blaenoriaeth:

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn, cefnogi addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, gwella seilwaith gwyrdd a systemau trin dŵr, a gwella rheolaeth ar dir a dŵr;
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni ac adnoddau adnewyddadwy, gan gynnwys datblygu economi gylchol;
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd: cydweithio i sicrhau gwell canlyniadau ar lefel leol.

Gwnaeth **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016** newidiadau pwysig i Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol.

Nod **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** yw gwella iechyd ac atal niwed i iechyd y mae modd ei osgoi. Mae'n gofyn llunio strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra a gofyniad i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gael ei wneud ar benderfyniadau allweddol.

Datganodd Llywodraeth Cymru **argyfwng hinsawdd** ym mis Ebrill 2019<sup>13</sup>. Ym mis Mai 2019 cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan darged 'sero net' erbyn 2050. I ddechrau, awgrymodd y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd mai dim ond gostyngiad o 95% y gallai Cymru ei gyrraedd oherwydd pwysigrwydd amaethyddiaeth i'w chymunedau gwledig<sup>14</sup>, ond ym mis Rhagfyr 2020 anogodd Gymru i gyflawni sero net<sup>15</sup>. Dylid cyflawni hyn drwy fabwysiadu atebion carbon isel,

<sup>12</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol.pdf>

<sup>13</sup> <https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd>

<sup>14</sup> [https://llyw.cymru/cymru-yn-derbyn-targed-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd-o-weld-lleihad-o-95-mewn-allyriadau?\\_ga=2.43264549.1203362420.1618817012-1899257595.1610976426](https://llyw.cymru/cymru-yn-derbyn-targed-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd-o-weld-lleihad-o-95-mewn-allyriadau?_ga=2.43264549.1203362420.1618817012-1899257595.1610976426)

<sup>15</sup> [www.theccc.org.uk/2020/12/17/net-zero-wales-by-2050-wales-faces-a-decisive-decade-to-get-on-track-to-an-emissions-free-future/](http://www.theccc.org.uk/2020/12/17/net-zero-wales-by-2050-wales-faces-a-decisive-decade-to-get-on-track-to-an-emissions-free-future/)

ehangu cyflenwadau ynni carbon isel, lleihau'r galw am weithgareddau carbon uchel a thrawsnewid tir o fod yn dir fferm i fod yn goetiroedd ac i gynhyrchiant bio-ynni.

**Ffyniant i Bawb: Mae Cymru Carbon Isel**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, yn nodi ymrwymadau Llywodraeth Cymru i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau gwahanol ar gyfer gwahanol sectorau: pŵer (e.e. mwy o berchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni), adeiladau (e.e. adolygu safonau adeiladu), trafndiaeth (e.e. cynyddu teithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus) ac ati. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2020 nododd Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Senedd Cymru nad yw Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i wireddu gostyngiad o 80% mewn nwyon tŷ gwydr, heb sôn am sero net<sup>16</sup>.


Cyhoeddwyd cynllun ymaddasu newid yn yr hinsawdd i Gymru, **Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd** ym mis Tachwedd 2019. Mae'n nodi camau gweithredu ar gyfer 2020-2025 sy'n cynnwys amddiffyn rhag llifogydd; diogelu cyflenwadau dŵr rhag sychder a llifoedd isel; mynd i'r afael ag arferion rheoli tir sy'n cynyddu'r perygl o lifogydd; a lleihau risgiau i ecosystemau ac amaethyddiaeth o newid yn yr hinsawdd.

## 2.2 Cyd-destun rhanbarthol

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cynnwys deg awdurdod lleol gan gynnwys Caerdydd. Yn 2016, cytunodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar **Y Fargen Ddinesig** gyda Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at ddarparu hyd at 25,000 o swyddi newydd a sicrhau £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad gan y sector preifat. Yn benodol, nod y rhanbarth yw cefnogi buddsoddiad mewn ardaloedd sy'n cynyddu allbwn economaidd y rhanbarth a lleihau bod heb waith, gan ganolbwyntio ar gysylltedd, y digidol, arloesi a sgiliau ac elfennau bod heb waith<sup>17</sup>. Yn 2018, cytunodd Cabinet PR-C mewn egwyddor i ymrwymo £40 miliwn i gefnogi Datblygiad y Metro Canolog arfaethedig gwerth £180 miliwn, a fyddai'n darparu cyfnewidfa drafnidiaeth ganolog newydd ym maes cyflogaeth graidd Caerdydd<sup>18</sup>.

Mae'r PR-C hefyd wrthi'n paratoui **Cynllun Datblygu Strategol** (CDS), a fydd yn mynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol fel tai, cyflogaeth a gwastraff ac y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Disgwylir i'r CDS fod yn weithredol erbyn canol 2022; cwmpasu tua 20 mlynedd; ymdrin â materion mwy-na-lleol fel nifer y tai, dyraniadau tai strategol, safleoedd cyflogaeth strategol, llwybrau seilwaith gwyrdd strategol a chefnogi seilwaith trafndiaeth<sup>19</sup>.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoui **Datganiad Ardal ar gyfer Ardal Canol De Cymru**, sy'n cwmpasu Caerdydd yn ogystal â Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg – gweler Ffigur 2.3. Mae adeiladu ecosystemau gwydn a chysylltu pobl â natur yn cynrychioli conglfeini'r datganiad ardal, gan ategu dull CNC o fynd i'r afael â heriau dŵr, iechyd ac ansawdd aer.<sup>20</sup>



**Ffigur 2.3 Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardal Canol De Cymru**

<sup>16</sup> <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/Progress-Report-Reducing-emissions-in-Wales.pdf>

<sup>17</sup> [www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/508268/Cardiff\\_Capital\\_Region\\_City\\_Deal.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508268/Cardiff_Capital_Region_City_Deal.pdf)

<sup>18</sup> <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/hwb-buddsoddi/>

<sup>19</sup> <https://llyw.cymru/sefydlu-rheoliadau-cynllunio-gwlad-thref-cynllun-datblygu-strategol-cymru-2021>


<sup>20</sup> <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/introduction-to-south-central-area-statement/?lang=cy>

## 2.3 Cyd-destun lleol

Mae Adroddiad Uchelgais Prifddinas 2017 yn nodi cynllun pum mlynedd y Cyngor ar gyfer y ddinas. Mae'n amlinellu gweledigaeth y Cyngor i Gaerdydd ddod yn ddinas flaenllaw ar lwyfan byd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Gweithio dros Gaerdydd: sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas a mwynhau'r buddion ddaw yn ei sgil.
- Gweithio dros Gymru – Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus.
- Gweithio ar gyfer y dyfodol – Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy
- Gweithio dros wasanaethau cyhoeddus - sicrhau y darperir ein gwasanaethau cyhoeddus yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wynebu galw cynyddol a chyllidebau llai.

Nod **Papur Gwyn Trafnidiaeth: Gweledigaeth Trafnidiaeth hyd at 2030**<sup>21</sup> Caerdydd, Ionawr 2020, yw mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer. Mae'n cynnig prosiectau i wella trafndiaeth gyhoeddus yn sylweddol yng Nghaerdydd a'r rhanbarth, gan gynnwys ehangu cynlluniau presennol y Metro i ddarparu mwy o lwybrau a gorsafoedd tram/trenau newydd (Ffigur 2.4); cyflwyno gwasanaethau teithio bws cyflym newydd a safleoedd Parcio a Theithio; gostwng prisiau tocynnau bws; darparu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel; a dewisiadau teithio wedi'u cynllunio i gael pobl allan o'u ceir.



**Ffigur 2.4 Cynigion Cleddau Croesi Caerdydd a Chylch Caerdydd**

Yn mis Mawrth 2019, datganodd Cyngor Caerdydd **argyfwng hinsawdd**. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd y cyngor ddrafft o **Caerdydd Un Blaned**<sup>22</sup>, gweledigaeth ar sut gall Caerdydd fod yn ddinas carbon-niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys ôl-ffitio ar raddfa fawr i adeiladau, datblygu cynhyrchiant ynni cost isel, cefnogi cerbydau allyriadau isel iawn, mwy o gorchuddiad coed a bwyd carbon isel. Mae Adran 3.4 yn trafod hyn ymhellach.

<sup>21</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/papur-gwyn-trafnidiaeth/Documents/White%20Paper%20for%20Cardiff%20Transport%202019%20WELSH.pdf>

<sup>22</sup> <https://www.caerdyddunblaned.co.uk/>



### 3 Cyd-destun cynaliadwyedd (Tasg A3)

Mae'r Gyfarwydddeb AAS yn gofyn am ddisgrifiad or agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu raglen" (Atodiad Ib) a "nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd tebygol yr effeithir arnynt" (Atodiad Ic).

Mae'r bennod hon yn nodi'r prif faterion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar Gaerdydd, dros oes y Cynllun Datblygu Lleol Newydd:

- 3.1 Mynediad, cydraddoldeb a phoblogaeth
- 3.2 Ansawdd aer
- 3.3 Bioamrywiaeth, fflora a ffawna
- 3.4 Newid yn yr hinsawdd
- 3.5 Treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y Gymraeg
- 3.6 Economi
- 3.7 Iechyd a Llesiant
- 3.8 Tir, pridd a mwynau
- 3.9 Tirwedd a mannau agored
- 3.10 Gwastraff
- 3.11 Dŵr a llifogydd

Ym mhob achos, trafodir y statws presennol am y tro cyntaf, ac yna'r sefyllfa debygol yn y dyfodol heb y cynllun. Mae Tabl 3.1 yn dangos sut mae'r pynciau hyn yn ymdrin â gofynion asesiad amgylcheddol strategol, asesiad effaith ar gydraddoldeb, asesiad effaith ar iechyd, ac asesiad effaith ar y Gymraeg. Ystyriwyd ffyrdd eraill o strwythuro'r adroddiad, yn arbennig egwyddorion cynaliadwyedd Gibson<sup>23</sup>, egwyddorion cydnerthedd Sefydliad Stockholm<sup>24</sup> a Nodau Llesiant Cymru (Ffigur 2.1). Ond, roeddent yn anos eu deall/defnyddio ar y cyfan, ac nid yn bodloni gofynion yr ACI mor glir.

Gofyniad y broses asesu	Adran ACI
Asesiad amgylcheddol strategol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bioamrywiaeth</li> <li>• Poblogaeth</li> <li>• Iechyd pobl</li> <li>• Anifeiliaid</li> <li>• Fflora</li> <li>• Pridd</li> <li>• Dŵr</li> <li>• Awyr</li> <li>• Ffactorau hinsoddol</li> <li>• Asedau materol</li> <li>• Treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol</li> <li>• Tirwedd</li> <li>• Rhyngberthynas rhwng y materion uchod</li> </ul>	<p>3.3</p> <p>3.1</p> <p>3.7</p> <p>3.3</p> <p>3.3</p> <p>3.8</p> <p>3.11</p> <p>3.2</p> <p>3.4, 3.11</p> <p>3.1, 3.6, 3.10</p> <p>3.5, 3.12</p> <p>3.9</p> <p>3.1, 3.2, 3.4, 3.6, 3.7, 3.8, 3.10, 3.11</p>
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (iechyd, tai, yr amgylchedd ac ati)	3.1, 3.6, 3.7
Asesiad o'i effaith ar iechyd (iechyd, ansawdd aer/dŵr, mynediad i fannau gwyrdd ac ati)	3.7, 3.1, 3.2, 3.6, 3.9, 3.11
Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg	3.5

**Tabl 3.1 Pynciau ACI v. gofynion prosesau asesu**

<sup>23</sup> Gibson, R.B. (2006) Sustainability assessment: basic components of a practical approach, Impact Assessment and Project Appraisal 24(3), 170-182.

<sup>24</sup> <https://www.stockholmresilience.org/research/research-news/2015-02-19-applying-resilience-thinking.html>



### 3.1 Mynediad, cydraddoldeb a phoblogaeth


#### Cyflwyniad

Mae poblogaeth Caerdydd wedi tyfu'n gyflym dros y 30 mlynedd diwethaf, ac mae disgwyl i'r twf cyflym hwn barhau. Mae Caerdydd hefyd wedi bod yn profi twf economaidd cryf a lefelau cynyddol o ffyniant, ond nid yw'r ffyniant hwn wedi'i ddsbarthu'n gyfartal, gan effeithio ar gydraddoldeb a llesiant. Mae amrywiadau sylweddol o fewn a rhwng ardaloedd, gyda phobl mewn rhai rhannau o Gaerdydd yn profi amddifadedd sydd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

#### Poblogaeth

Yn 2019, roedd poblogaeth Caerdydd yn 366,900, i fyny o 345,400 yn 2011; 310,000 yn 2001; a 297,000 yn 1991 (Ffigur 3.1.1)<sup>25</sup>. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd twf o rhwng 0.5% ac 1% y flwyddyn. Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Gyfunol, ac mae'n tyfu'n gynt nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru<sup>26</sup>. Mae llawer o'r twf hwn yn sgil mewnfudo o wledydd eraill. I'r gwrthwyneb, bu llai o allfudo net gan drigolion Caerdydd i rannau eraill o wledydd Prydain.<sup>27</sup>

Mae maint cyfartalog aelwydydd Caerdydd wedi gostwng yn gyson, o 2.5 person fesul aelwyd ym 1991 i 2.29 person yn 2019<sup>28</sup>. Mae maint cyfartalog presennol aelwydydd ychydig yn uwch nag ar gyfer Cymru (2.26) ond yn is na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol o 2.4. Mae maint aelwydydd yn gostwng oherwydd cynnydd mewn aelwydydd sengl, gan gynnwys rhieni unigol a phobl hŷn sengl. Yn 2011, roedd 33% o aelwydydd Caerdydd yn aelwydydd un person, i fyny o 31% yn 2006.



Ffigur 3.1.1 Poblogaeth Caerdydd 1991-2018, ac amcanestyniadau poblogaeth<sup>29</sup>

<sup>25</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year>

<sup>26</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/well-being-assessment/cardiff-today/rapidly-growing-city/>

<sup>27</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/International/migrationflowsbetweenwalesandtherestoftheworldnon-uk-by-flow-year;>  
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/migrationbetweenwalesandrestofuk-by-localauthority-flow-periodofchange>

<sup>28</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Households/Estimates/averagehouseholdsize-by-localauthority-year>


<sup>29</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojections-by-localauthority-year;>  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/amcanestyniadau-genedlaethol-or-boblogaeth-sail-2018-283.pdf>

### Mae gan Gaerdydd gyfran uchel o oedolion ifanc

Mae gan Gaerdydd gyfran amlwg o bobl ifanc o gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr: roedd 21% o'i phoblogaeth yn 2018 yn 18-27 oed, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr o 13% (Ffigur 3.1.2)<sup>30</sup>. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei phoblogaeth o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn cynnwys mwy na 13% o drigolion y ddinas, i fyny o lai na 10% yn 2000<sup>31</sup>.

### Mae grwpiau ethnig fel cyfran o boblogaeth Caerdydd yn llawer uwch nag ar gyfer Cymru gyfan

Mae 18.5% o boblogaeth Caerdydd yn Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig (BAME). Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 5.4%, a'r uchaf o bell ffordd o awdurdodau lleol Cymru. Mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 14%. Mae data'r Cyfrifiad yn dangos bod canran uchel o'r rheini o gefndiroedd BAME yn byw yn yr ardaloedd canol dinas tlotaf – gan gynnwys Grangetown, Butetown, Riverside ac Adamsdown - er bod hyn yn newid.<sup>32</sup>



**Ffigur 3.1.2 Pyramid oedran ar gyfer Caerdydd (llwyd) v Lloegr a Chymru (gwyrdd), 2018 (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

### Mae angen symiau sylweddol o dai i gartrefu'r boblogaeth gynyddol

Mae Tabl 3.1.1 yn dangos targedau'r Cynllun Lleol ar gyfer anheddau marchnad cyffredinol net, a'r anheddau a adeiladwyd mewn gwirionedd. Roedd nifer yr anheddau a adeiladwyd i ddechrau yn sylweddol is na'r targed: roedd hyn o ganlyniad i 'oedi ar y cyflenwi' ar ôl mabwysiadu'r cynllun, a disgwyllir i gyfradd y

Cyfnod amser	Targed y Cynllun Lleol	Anheddau a adeiladwyd
2014 – 2016	2495	866
2016 – 2018	4096	1183
2018 – 2020	4153	1135 yn 2018/19

<sup>30</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/ukpopulationpyramidinteractive/2020-01-08>

<sup>31</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Enrolments-at-Welsh-HEIs/enrolmentsduringtheyear-by-institution-level-modeofstudy>

<sup>32</sup> <http://hummedia.manchester.ac.uk/institutes/code/briefings/localdynamicsofdiversity/geographies-of-diversity-in-cardiff.pdf>

gwaith adeiladu gynyddu<sup>33</sup>. Mae'r gyfradd cwblhau wedi cyflymu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r holl safleoedd cynllun strategol mawr yn dechrau cael eu codi.

2020 - 2022	4042	
2022-23	4010	
2024-25	3759	


Tabl 3.1.1 Targedau tai a chyflawni

**Mae Caerdydd yn gartref i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - yn ddaeryddol mae yna grynodiad o amddifadedd ym 'mwa deheuol' y ddinas.**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd lleol yng Nghymru. Ym, MALIC diweddaraf 2019, roedd 9% (neu 18 allan o 191) o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yng Nghaerdydd. Mae hyn yn is na Chasnewydd (12.6%) a Merthyr Tudful (11.5%) ac ar yr un lefel â Rhondda Cynon Taf, ond yn uwch na phob awdurdod lleol arall yng Nghymru<sup>34</sup>. Mae'n sylweddol well na'r sefyllfa yn 2010, lle'r oedd gan Gaerdydd 40 allan o 190 o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ond mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ardaloedd eraill o Gymru'n gwaethgu: mae tlodi cymharol o fewn ardaloedd yng Nghaerdydd yn parhau'n uchel.

Mae amddifadedd wedi'i ganoli'n bennaf yn rhan ddeheuol a dwyreiniol Caerdydd (Ffigur 3.1.4), a'r rhannau gogleddol a gorllewinol yw'r rhai lleiaf difreintiedig ar y cyfan. Mae gan y 'bwa deheuol' hefyd gyfran uwch o bobl sy'n cael budd-daliadau allan o waith nag ardaloedd eraill yng Nghaerdydd: ym mis Ionawr 2020 roedd cyfradd yr hawlwr yn Adamsdown, Trelái a Sblot yn 6% neu fwy, o'i gymharu â llai nag 1% yng Nghyncoed, Llys-faen a Rhiwbeina<sup>35</sup>.

Mae pandemig y coronafeirws wedi dyblu cyfran y bobl sy'n derbyn budd-daliadau yng Nghaerdydd, o 3.3% ym mis Chwefror 2020 i 6.5% ym mis Tachwedd 2020 (Ffigur 3.1.3).<sup>36</sup>



**Ffigur 3.1.3 Hawlwyr budd-daliadau y tu allan i'r gwaith (%): dyblu ers pandemig y coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**


<sup>33</sup> <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswyllydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynyddol/Documents/Cardiff%20LDP%203rd%20AMR%20Welsh%20Version%20Final.pdf>

<sup>34</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/localauthorityanalysis>

<sup>35</sup> [www.nomisweb.co.uk](http://www.nomisweb.co.uk)

<sup>36</sup> Ibid






**Ffigur 3.1.4** Mynegai Amddifadedd Lluosog, cyffredinol 2019 (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

### Mae llai o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel, ond yn fwy na chyfartaledd Cymru


Mae 23% o blant dibynnol o dan 20 oed yng Nghaerdydd yn byw mewn teuluoedd incwm isel, yn fwy na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Bu gostyngiad graddol yn hyn ers 2009, pan oedd yn 27%. Mae plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod yn afiach neu o fod â chanlyniadau addysgol gwaeth. Mae anghysondebau mawr ledled Caerdydd o ran plant mewn teuluoedd incwm isel: bron i 45% yn Nhrelái, a llai na 5% yn Rhiwbeina (Ffigur 3.1.5).



**Ffigur 3.1.5 Plant mewn teuluoedd incwm isel, 2015<sup>39</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

### Mae diffyg unedau tai fforddiadwy - yn enwedig tai teuluol – yn eithrio'r rhai ar incwm isel rhag ymuno â'r farchnad dai

Ym mis Hydref 2020 (y dyddiad diweddaraf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), pris cyfartalog tŷ yng Nghaerdydd oedd £217,804, cynnydd o 39% o'r £156,284 ym mis Hydref 2010<sup>37</sup>. Mae pris tai sengl wedi tyfu'n arbennig o gyflym. Y cyflog blynyddol cyfartalog yn 2019 oedd £28,660, 9% yn uwch na chyfartaledd Cymru ond 6% yn is na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol<sup>38</sup>. Yn 2019, cymhareb pris tai yn erbyn cyflog blynyddol oedd 7.6, i fyny o ychydig o dan 6 yn 2012, ac ychydig o dan gyfartaledd y Deyrnas Gyfunol (Ffigur 3.1.6).



Source: ONS

**Ffigur 3.1.6 Fforddiadwyedd tai (cymhareb prisiau tai i enillion sy'n seiliedig ar breswylfa, 2002-2018<sup>40</sup> coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>37</sup> <https://landregistry.data.gov.uk/app/ukhpi/browse?from=2010-01-01&lleoliad=http%3A%2F%2Flandregistry.data.gov.uk%2Fid%2Fregion%2Fcardiff&i=2021-01-01&lang=cy>

<sup>38</sup> [www.nomisweb.co.uk](http://www.nomisweb.co.uk)


<sup>39</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Cardiff-in-2018-Final-English.pdf>

<sup>40</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Caerdydd%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Llafur%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Caerdydd%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Llafur%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf)




Mae darparu digon o dai fforddiadwy yn broblem barhaus yng Nghaerdydd. Ar ddechrau 2021, roedd tua 8,000 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyngor, o'i gymharu â 10,491 yng nghanol 2010. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod targed ar gyfer darparu 6,646 o unedau fforddiadwy rhwng 2014 a 2026, gyda tharged interim i ddarparu 1,942 o anheddau fforddiadwy erbyn 2019. Erbyn 2019, roedd 1,082 o unedau fforddiadwy wedi'u darparu, sef 25% o'r tai a gwblhawyd yn gyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd arafach na'r disgwyl yn y dyraniadau tai strategol sy'n cael eu cyflawni (Tabl 1.1).

Mae ansawdd y tai yng Nghaerdydd yn amrywio, gyda thai yn ne ardal y cyngor yn fwy tebygol o fod yn orlawn a heb wres canolog na mannau eraill yng Nghaerdydd (Ffigur 3.1.7).



**Ffigur 3.1.7 Mynegai Amddifadedd Lluosog 2019 tai<sup>41</sup> coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**



**Ffigur 3.1.8 Mynegai Amddifadedd Lluosog 2019 mynediad at wasanaethau<sup>35</sup> coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>41</sup> Gweler Ffigur 3.1.3 ar gyfer yr allwedd

### **Mae digartrefedd yng Nghaerdydd yn cynyddu**

Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn arbennig o agored i niwed ac mae nifer sylweddol ohonynt yn byw yng Nghaerdydd. Mae hosteli a thai lletya wedi'u crynhoi o amgylch canol y ddinas. Mae Caerdydd hefyd yn denu nifer fawr o bobl ifanc sydd wedi gadael cartref, wedi dianc o ofal, neu sy'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill. Yn ystod 2017/18, derbyniodd Cyngor Caerdydd 3,987 o ymholiadau gan bobl ddigartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, i fyny 67% o ddwy flynedd yn gynharach. Cododd nifer y bobl ddigartref yng Nghaerdydd o 1,274 yn 2015 i 1,976 yn 2018. Mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, mae Cyngor Caerdydd wedi dod o hyd i lety i'r rhan fwyaf o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwario £20 miliwn er mwyn helpu i sicrhau nad oes angen i bobl ddychwelyd i gysgu ar y stryd.<sup>42</sup>

### **Mae gan Gaerdydd fynediad da at wasanaethau er bod diffygion yn dal i fod ar lefel leol**

Fel y disgwyliad ar gyfer dinas gywasgedig, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod gan Gaerdydd fynediad da at wasanaethau<sup>43</sup>. Nid oes unman yng Nghaerdydd yn y 10% gwaethaf yng Nghymru o ran mynediad (Ffigur 3.1.8).

### **Dyfodol tebygol heb y cynllun**

Mae Ffigur 3.1.1 yn dangos yr amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2014 a 2018 ar gyfer Caerdydd. Mae'r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer tua 80,000 yn fwy o bobl i fyw yng Nghaerdydd yn 2039 o'i gymharu â 2018. Nid yw'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018 hyd at 2039 ar gael eto, ond maent yn sylweddol is na'r amcanestyniadau seiliedig ar 2014. Gwnaed yr holl amcanestyniadau cyn Brexit, ac felly gallant newid yn sylweddol.

Disgwylir i gyfran trigolion Caerdydd 65+ oed gynyddu o 14.5% yn 2019 i 17.7% yn 2039. O'r rhain, disgwylir i gyfran y preswylwyr 85+ oed dyfu o 2.2% i 3.5% o'r boblogaeth.<sup>44</sup> Mae i hyn oblygiadau o ran darparu a dylunio'r rhannau hynny o'r amgylchedd adeiledig sy'n cefnogi iechyd a chysylltiadau cymdeithasol pobl hŷn, er enghraifft cartrefi cynnes, manau pontio'r cenedlaethau mewn cartrefi, cysylltiadau trafndiaeth da, manau gwyrdd a chanolfannau cymunedol.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn darparu ar gyfer llawer iawn o dai newydd, yn enwedig mewn chwe safle datblygu strategol. Mae cynllunio ac, mewn rhai achosion, y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar bob un o'r safleoedd hyn. Bu tuedd o leihad mewn amddifadedd yng Nghaerdydd, a allai barhau gyda chyflogaeth gynyddol a mwy o dai a mynediad i fannau gwyrdd a llwybrau cerdded/beicio.

---

<sup>42</sup> <https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-cyhoeddi-cronfa-newydd-gwerth-20-miliwn-i-drawsnewid-gwasanaethau>

<sup>43</sup> Mae'r mynegai mynediad at wasanaethau yn ymwneud â'r amser cyfartalog y byddai'n ei gymryd i gael mynediad at 8 gwasanaeth allweddol (siop fwyd, meddygfa, ysgol gynradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, canolfan hamdden, deintydd y GIG, ysgol uwchradd, a modd trafndiaeth)

<sup>44</sup> <https://cavuhb.nhs.wales/files/key-publications/dph-report-2020-pdf/>

## 3.2 Ansawdd aer


### Cyflwyniad

Mae llygredd aer yn effeithio'n negyddol ar iechyd pobl. Mae Cyngor Caerdydd yn adolygu ac yn asesu ansawdd aer o bryd i'w gilydd er mwyn cydymffurfio ag amcanion Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000. Daw Adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer 2019<sup>45</sup> i'r casgliad na thorrwyd ar derfynau cyfreithiol lefelau bensen, carbon monocsid na sylffwr deuocsid yn 2018, ond roedd gormodedd o nitrogen deuocsid, osôn a gronynnau. Ni chafwyd adroddiad cynnydd ar gyfer 2020; fodd bynnag, canfu Panel Cyngori Ar Aer Glân Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfyngiadau clo coronafeirws cyntaf, ostyngiad o 30-40% ar gyfartaledd mewn lefelau  $NA_x$  mewn ardaloedd trefol, tra gwelwyd cynnydd mewn lefelau osôn a bod lefelau gronynnau ( $PM_{2.5}$ ) wedi aros yn fras tua'r un [peth].<sup>46</sup>

### Nitrogen deuocsid yw prif achos 'mannau problemus' llygredd aer yng Nghaerdydd

Mae lefelau nitrogen deuocsid ( $NO_2$ ) yn amrywio ledled y ddinas, ond maent ar eu huchaf yn fras yng nghanol y ddinas ac ar eu hisaf ar ymylon Caerdydd, yn enwedig yng Ngwastadeddau Gwynllŵg (Ffigur 3.2.1).

Mae gan Gaerdydd bedair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAu), sydd i gyd wedi'u dynodi oherwydd bod ansawdd yr aer yn yr ardaloedd hynny yn fwy na'r trothwy  $NO_2$  cyfreithiol o  $40\mu g/m^3$ . Achosir  $NO_2$  yn bennaf gan draffig ffyrdd. Datganwyd pedwar ARhAA yn wreiddiol: Heol Casnewydd, y Ffilog a Gorllewin Caerdydd yn 2000, a Heol Eglwys Fair yn 2002. Cafodd y ddau gyntaf eu dirymu yn 2007, a lleihawyd arwynebedd ARhAA Gorllewin Caerdydd (a ailenydd yn Bont Trelái). Ym mis Rhagfyr 2010, datganwyd ARhAA Stephenson Court. Mae Ffigur 3.2.2 yn dangos yr ARhAAu presennol<sup>47</sup>, ac mae Tabl 3.2.1 yn dangos ansawdd aer dros amser yn yr ARhAAu.



Ffigur 3.2.1 Cymedr blynyddol lefelau  $NO_2$ , 2014<sup>48</sup> coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)


<sup>45</sup> <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s35876/Cabinet%202021%20Tachwedd%202019%20Local%20Air%20Quality%20Progress%20Adroddiad%20App.pdf>.

<sup>46</sup> [https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2021-01/Clean\\_Air\\_Advisory\\_Panel\\_report-Impacts\\_of\\_the\\_Covid-19\\_pandemic\\_on\\_air\\_quality\\_in\\_Wales\\_English.pdf](https://airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2021-01/Clean_Air_Advisory_Panel_report-Impacts_of_the_Covid-19_pandemic_on_air_quality_in_Wales_English.pdf)

<sup>47</sup> Ibid.

<sup>48</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/well-being-assessment/cardiff-clean-sustainable/air-quality/>






Canol Dinas Caerdydd



Pont Trelái



Stephenson Court



Llandaf

**Ffigur 3.2.2 ARhAAu Presennol yng Nghaerdydd**

Mae Tabl 2.1 yn dangos bod ansawdd aer wedi gwella'n gyffredinol dros amser. Gwellodd ansawdd aer ar y Stryd Fawr yn sylweddol ar ôl ei neilltuo i gerddwyr yn 2010.

AQMA	Blwyddyn	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Canol Dinas Caerdydd	58. Heol y Porth	39	50	52	55	50	52	51	48	45	45	46
	119. Stryd Havelock	31	34	38	40	34	33	32	28	30	33	38
	126. Fflatiau Stryd y Porth	35	40	49	45	40	44	41	36	38	39	35
	160. Stryd Fawr	69	50	36	33	31	30	28	27	32	28	27
	184. Heol Eglwys Fair									41	39	40
	186. Stryd y Castell									48	48	46
	187. Gwesty'r Angel									51	50	51
Pont Trelái	117. Heol Orllewinol y Bont-faen		43	52	47	43	45	42	40	41	49	40
Steph. Ct.	81. Stephenson Court		41	46	41	41	37	36	35	38	36	35
Llandaf	33 Mitre Place		52	54	55	50	50	51	47	48	33	33
	99. Heol Caerdydd, Llandaf		42	49	40	35	39	40	30	35	31	32
	212. Heol y Bont											47

**Tabl 3.2.1 Lefelau NO<sub>2</sub> yn ARhAAu Caerdydd dros amser** (mae celloedd coch yn dangos lle mae'r ARhAA yn uwch na'r trothwy blynyddol o 40µg/m<sup>3</sup>)<sup>49</sup>


<sup>49</sup> <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s35876/Cabinet%202021%20November%202019%20Local%20Air%20Quality%20Progress%20Report%20App.pdf>



Gofynnodd ymgynghoriad y Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân 2019<sup>50</sup> i ymatebwyr raddio gwahanol fesurau ar gyfer gwella ansawdd aer yn y ddinas. Yr opsiynau a ffefrid fwyaf oedd tocynnau integredig, fflyd bysiau di-garbon, a gwybodaeth ddigidol i ddefnyddwyr ar gyfer bysiau. Y rhai a ffefrid leiaf oedd mesurau a fyddai'n gofyn i yrwyr newid eu hymddygiad: ardollau parcio, parth ledled dinas 20mya, targedau teithio llesol, a pharthau aer glân (Ffigur 3.2.3)

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Cyn pandemig y coronafeirws, roedd disgwyl i ansawdd aer yng Nghaerdydd barhau i wella mewn ymateb i dynhau'r gofynion ar allyriadau cerbydau, cynnydd mewn cerbydau trydan, a mwy o ddefnydd o ddulliau teithio nad ydynt yn cynnwys ceir. Nid yw'n glir a fydd newidiadau i ffyrdd o fyw pobl oherwydd y pandemig – mwy o weithio gartref, llai o gymudo, llai o deithio ar gyfer manwerthu a hamdden – yn parhau ar ôl pandemig. Os byddant yn gwneud hynny, yna mae ansawdd aer yn debygol o wella'n gynt nag a ragwelwyd i ddechrau. Nid yw'n glir ychwaith a fydd Brexit yn effeithio ar symudiadau trafniadaeth a deddfwriaeth ansawdd aer yng Nghymru.



Ffigur 3.2.3 Dewisiadau cyhoeddus ar gyfer mesurau rheoli trafniadaeth yng Nghaerdydd<sup>51</sup> coronafeirws (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

<sup>50</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Caerdydd%20Library/Transport%20and%20Clean%20Air%20Green%20Papur%20Consultation%20Adroddiad.pdf>

<sup>51</sup> Ibid.

### 3.3 Bioamrywiaeth, fflora a ffawna

#### Cyflwyniad

Mae gan Gaerdydd ystod eang o elfennau bioamrywiaeth o ddi-ddordeb sy'n ymestyn o Ynys Echni yn Aber Afon Hafren i'r bryniau sy'n ffurfio ymyl ogleddol y ddinas, mil o droedfeddi uwchlaw lefel y môr. Mae cynefinoedd a rhywogaethau wedi datblygu mewn ymateb i amodau lleol ac maent yn cynrychioli adnodd bioamrywiaeth Caerdydd.

#### Mae gan Gaerdydd ystod eang o safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys dau Safle Dynodedig Ewropeaidd (Aber Afon Hafren a Choedwig Ffawydd Caerdydd)

Mae Ffigur 3.3.1 yn dangos lleoliad safleoedd dynodedig yng Nghaerdydd. Mae Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Aber Afon Hafren, yr Ardal Warchodaeth Arbennig (AGA) a'r Safle Ramsar yn cynnwys gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol, morfeydd heli, graean a thraethlin greigiog. Mae'r cynefinoedd hyn yn cefnogi poblogaethau pwysig adar y ddŵr sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae'r aber hefyd yn bwysig ar gyfer rhediad pysgod mudol, ac mae iddo amrediad llanw enfawr. Mae Coed Ffawydd Caerdydd yn cynnwys un o'r crynodiadau mwyaf o goedwigoedd ffawydd yng Nghymru, ac mae'n cynrychioli'r cynefin sy'n agos i derfyn gorllewinol ei amrediad brodorol blaenorol yn y Deyrnas Gyfunol ac yn Ewrop. Mae Tabl 3.3.1 yn crynhoi cyflwr, a'r bygythiadau a'r pwysau ar y safleoedd hyn sy'n bwysig yn rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur. Y pwysau allweddol yw aflonyddwch hamdden, trefoli, a newidiadau eraill a ysgogir gan ddyn. Mae cyflwr yr adar sy'n defnyddio Aber Afon Hafren yn arbennig o broblemus.

**Tabl 3.1.1 Cyflwr, bygythiadau a'r pwysau ar safleoedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol yn/ger Caerdydd<sup>52</sup>**

Enw'r safle	Pam mae'r safle wedi'i dynodi ('nodwedd gymhwysol')	Bygythiadau a phwysau
ACA Coed Ffawydd Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Coedwigoedd ffawydd <i>Asperulo-Fagetum</i></li> <li>Coedwigoedd <i>Tilio-Acerion</i> o lethrau, sgrï a cheunentydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyberthnasau blodau rhyngbenodol</li> <li>Rhywogaethau goresgynnol estron</li> <li>Gweithgareddau hamdden</li> </ul>
ACA Aber Afon Hafren	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aberoedd</li> <li>Gwastadeddau llaid a thywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr</li> <li>Dolydd heli yr Iwerydd</li> <li>Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio gan ychydig o ddŵr môr drwy'r amser</li> <li>Riffiau</li> <li>Llysywen bendoll y môr</li> <li>Llysywen bendoll yr afon</li> <li>Gwangen</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefoli, diwydiannol ac ati.</li> <li>Newidiadau mewn amodau anfiotig</li> <li>Newidiadau a ysgogir gan ddyn</li> <li>Gweithgareddau hamdden</li> <li>Addasu arferion amaethu</li> </ul>
AGA Aber Afon	<ul style="list-style-type: none"> <li>Alarch Bewick</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgareddau hamdden</li> </ul>

<sup>52</sup> <http://sac.jncc.gov.uk>

Enw'r safle	Pam mae'r safle wedi'i dynodi ('nodwedd gymhwysol')	Bygythiadau a phwysau
Hafren	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hwyaden yr Eithin*</li> <li>Hwyaden Lwyd*</li> <li>Pibydd y Mawn*</li> <li>Pibydd Coesgoch*</li> <li>Gŵydd dalcenwyn*</li> <li>Cynulliadau o adar dŵr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefoli arall, diwydiannol ac ati.</li> <li>Addasu arferion amaethu</li> <li>Newidiadau mewn amodau anfiotig</li> <li>Newidiadau a ysgogwyd gan ddyn mewn amodau hydrologig</li> </ul>
Ramsar Aber Afon Hafren	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amrediad llanw enfawr</li> <li>Cymunedau aberoedd anarferol, llai o amrywiaeth a chynhyrchiant uchel</li> <li>Rhediad pysgod mudol rhwng y môr a'r afon drwy'r aber</li> <li>Rhywogaethau pysgod amrywiol iawn</li> <li>Cynulliadau o adar dŵr o bwysigrwydd rhyngwladol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Treillio</li> <li>Erydiad</li> <li>Aflonyddwch hamdden</li> </ul>

Cyflwr byd-eang y nodwedd gymhwysol:

A	B	C	
			* Nid oes gwybodaeth am statws byd-eang yr adar hyn. Darperir y wybodaeth ar ynysu; y boblogaeth yn gyson un 'radd' yn well

Mae'r 18 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDGAau) yng Nghaerdydd yn amrywio o gynefinoedd coetir, dyfrol, corsiog a glaswelltir i safleoedd o ddiddordeb daearegol<sup>53</sup>, ac o statws ffafriol i anffafriol. Nid yw statws nifer – gan gynnwys y Gwastadeddau Gwent helaeth iawn a SDGAau Aber Afon Hafren - yn hysbys (Tabl 3.1.2).

**Tabl 3.1.2 Cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghaerdydd/ger Caerdydd<sup>54</sup>**


Argloddiau Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen	Fforestganol a Chwm Nofydd	Chwarel Pen-y-lan
Caeau Blaen-Bielly	Ynys Echni	Rhan o Afon Rhymini
Coetiroedd Castell Coch a rhan o'r ffordd	Coed y Garth	Chwarel Rhymini
Coed y Bedw	Camlas Morgannwg / Coed Hir	Aber Afon Hafren
Cwarrau Ton Mawr a Ffynnon Taf	Gwastadeddau Gwent - Tredelerch a Llanbedr	Rhos Tŷ Du
Cwm Cydfin, Lecwydd	Gwynllŵg	
Dyffryn Elái	Cronfa Ddŵr Llys-faen	

Cyflwr y SDGA:	anhysbys	ffafriol	ffafriol /anhysbys	anffafriol / anhysbys	anffafriol

<sup>53</sup> <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/find-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=cy>

<sup>54</sup> Elizabeth Felton, Cyfoeth Naturiol Cymru, goheb. bers., Mawrth 2020.





**Ffigur 3.3.1 Safleoedd cadwraeth natur dynodedig a mannau agored yng Nghaerdydd (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**



Mae chwe Gwarchodfa Natur Leol sy'n cwmpasu 150ha yn cynnig cyfleoedd da i gael mynediad at fywyd gwylt lleol ac mae 181 o Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SPCNau) yn cwmpasu 1672ha.

Rhywogaethau a warchodir gan Ewrop sydd i'w cael yng Nghaerdydd yw'r Fadfall Fawr Gribog, Dyfrgwn, Pathewod ac Ystlumod. Erbyn hyn, mae dyfrgwn yn bresennol ar bob un o'r tair prif afon ac maent hefyd wedi lledu i is-afonydd a chrynofeydd dŵr eraill. Mae angen cynefin coetir ar pathewod a gwyddys eu bod yn bodoli'n bennaf ar draws y gefn ogleddol ac i'r dwyrain o'r ddinas. Mae pob rhywogaeth o ystlumod wedi eu gwarchod ac mae eu dosbarthiad yn amrywio: mae rhai yn gyffredin fel yr Ystlum Lleiaf tra bod eraill yn fwy lleol.

### **Mae gan Gaerdydd lawer o goridorau a rhwydweithiau o gynefinoedd cymysg sy'n darparu cysylltedd da i rywogaethau**

Mae cymoedd afonydd Taf, Elái a Rhymni yn ffurfio coridorau strategol bwysig o fannau agored sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd sy'n rhedeg drwy'r ddinas, o gefn gwlad i Aber Afon Hafren. Mae'r rhain yn darparu coridorau bywyd gwylt gwerthfawr a chysylltedd rhwng cynefinoedd sy'n bwysig i lawer o rywogaethau. Yn gyffredinol, mae llednentydd a nentydd bwydo yn rhedeg o dir uwch i'r gogledd ac yn bwydo i'r prif afonydd, gan ddarparu swyddogaeth debyg. Mae nodweddion fel coetiroedd, gwrychoedd, corstiroedd, ffeniau gwern a rheilffyrdd nas defnyddir yn gyffredin yng nghefn gwlad yr ardal drefol. Mae'r clytwaith hwn o gynefinoedd amrywiol yn adnodd da ar gyfer bioamrywiaeth (Ffigur 3.3.2). Fodd bynnag, mae gorchudd coetir Caerdydd yn dameidiog, gydag ond ychydig o ardaloedd yn fwy na 5 hecтар.



**Ffigur 3.3.2** Seilwaith gwyrdd yng Nghaerdydd<sup>55</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

<sup>55</sup> <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s34304/Cabinet%2026%20Sept%202019%20Biodiversity%20BRED.pdf>.

## Dyfodol tebygol heb y cynllun

Prin yw'r wybodaeth am fioamrywiaeth yng Nghaerdydd, yn arbennig cyflwr SDGAau a lleoliad a digonedd rhywogaethau a warchodir. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio a monitro'r cyflwr.

Mae gan ddatblygiadau newydd o fewn a thu allan i ffin yr anheddiad y potensial i niweidio adnodd bioamrywiaeth Caerdydd. Gall safleoedd tir llwyd gynnwys diddordeb bioamrywiaeth sylweddol ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cydnabod a'u diogelu lle y bo'n bosibl. Yn yr un modd, mae cymoedd afonydd a chefn gwlad yn agored i ddatblygiad ansensitif ac i newid mewn arferion amaethyddol a defnydd tir. Mae pandemig y coronafeirws wedi dangos pa mor bwysig yw manau gwyrdd i les corfforol a meddyliol pobl: efallai y bydd gwrthdaro rhwng gwneud manau gwyrdd yn hygyrch i'r cyhoedd a diogelu eu bioamrywiaeth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru<sup>56</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a diogelu gwydnwch ecosystemau. Yn benodol, mae'n disgwyl i awdurdodau cynllunio ystyried amrywiaeth o fewn a rhwng ecosystemau; y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; maint yr ecosystemau; cyflwr ecosystemau gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad; a hyblygrwydd ecosystemau. Mae Cyngor Caerdydd wedi paratoi cynllun strategol Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau<sup>57</sup>, Canllaw Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd<sup>58</sup>, a Nodyn Cyfarwyddyd Technegol ar Ecoleg a Bioamrywiaeth. Mae wedi dechrau cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur Lleol.

---

<sup>56</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>, ad. 6.4

<sup>57</sup> <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s34304/Cabinet%2026%20Sept%202019%20Biodiversity%20BRED.pdf>.

<sup>58</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Planning/Planning-Policy/Supplementary-Planning-Guidance/Documents/Consultation/Green%20Infrastructure%20SPG%20English%20June%202017.pdf>

### 3.4 Newid yn yr hinsawdd

#### Cyflwyniad

Mae'n debyg mai newid yn yr hinsawdd yw'r her hirdymor fwyaf sy'n wynebu'r hil ddynol. Yn fyd-eang, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cynyddu'n raddol ers y chwyldro diwydiannol. Mae crynodiadau nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer bellach yn 454ppm CO<sub>2</sub> cyfatebol, 37ppm yn fwy na dim ond deng mlynedd yn ôl<sup>59</sup>, ac o'i gymharu â dim ond 280ppm cyn y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r crynodiad cynyddol yn cael ei ysgogi gan allyriadau cynyddol o weithgareddau dynol, megis cynhyrchu ynni, traffig a newid defnydd tir.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cynnwys:

- Mwy o berygl llifogydd ac erydiad
- Mwy o bwysau ar systemau draenio
- Priddoedd sychach ac ymsuddiant
- Newidiadau a cholled sylweddol i gynefinoedd a rhywogaethau
- Problemau ansawdd dŵr mewn afonydd a llynnoedd
- Mwy o achosion o sychder a phroblemau gyda chyflenwadau dŵr
- Ansawdd aer is
- Asideiddio'r môr
- Problemau iechyd yn yr haf
- Llai o alw am ynni yn y gaeaf ond galw cynyddol yn yr haf
- Mwy o achosion o glefydau a gludir gan bryfed a dŵr
- Gwendid seilwaith trafndiaeth, gwastraff ac ynni
- Cynnydd yn y galw am ddŵr a'i gost
- Costau yswiriant uwch a gostyngiad yng ngwerth eiddo
- Mwy o berygl gweld tanau mewn coedwigoedd ac ar rostiroedd
- Newidiadau yn y dirwedd
- Mwy o dwristiaeth oherwydd tywydd cynhesach

Mae ardal Caerdydd yn debygol o fod yn destun cynnydd uwch mewn tymheredd yn sgil newid yn yr hinsawdd na'r rhan fwyaf o weddill y Deyrnas Gyfunol (UKCIP 2009)

Datganodd Cyngor Caerdydd argyfwng hinsawdd ym mis Mawrth 2019, a datganodd Llywodraeth Cymru un fis yn ddiweddarach. Nod Cyngor Caerdydd yw sicrhau niwtraliaeth o ran carbon erbyn 2030, a nod Llywodraeth Cymru yw i Gymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr 'sero net' erbyn 2050<sup>60</sup>. Mae'r adran hon yn dechrau gydag achosion newid yn yr hinsawdd – allyriadau nwyon tŷ gwydr - ac yn parhau gyda'r modd y mae Caerdydd yn delio â newid yn yr hinsawdd. Mae Adran 11 yn trafod llifogydd.


---

<sup>59</sup> <https://www.eea.europa.eu/data-and-maps/indicators/atmospheric-greenhouse-gas-concentrations-6/assessment-1>.


<sup>60</sup> <https://www.itv.com/news/wales/2019-05-02/wales-warned-to-cut-greenhouse-emissions-by-95-before-2050/>

### Mae allyriadau CO<sub>2</sub> y pen Caerdydd yn gostwng, yn enwedig oherwydd gostyngiadau mewn allyriadau diwydiannol a masnachol

Carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol yng Nghaerdydd wedi bod yn gostwng yn raddol, o 2679kt yn 2005 i 1647kt yn 2018, gostyngiad o 39% (Ffigur 3.4.1). Mae allyriadau o weithgareddau diwydiannol a masnachol wedi gostwng yn arbennig o gyflym. Mae allyriadau blynyddol fesul person wedi gostwng hyd yn oed yn gynt, o ystyried bod poblogaeth Caerdydd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn: gostyngodd 46%, o 8.3 tonnall fetrig/person i 4.5 tonnall fetrig/person. Gellir priodoli'r gostyngiadau hyn yn rhannol i adeiladau a chyfarpar sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, ond hefyd i'r dirwasgiad economaidd a mesurau llymder dilynol.



Ffigur 3.4.2 Lefelau traffig blynyddol, biliwn km-cerbyd, Caerdydd<sup>62</sup>



Ffigur 3.4.1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr (mewn cilotunnell, kt) ar gyfer Caerdydd<sup>61</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

Mae defnydd ar ynni domestig yn gyfrifol am bron i draean o allyriadau CO<sub>2</sub> Caerdydd. Mae defnydd Caerdydd o ynni domestig fesul person ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a gwledydd Prydain, a gostyngodd 14% rhwng 2008 a 2018.


Mae traffig i'w gyfrif am 30% arall o allyriadau, ac nid oedd yn gostwng cyn pandemig y coronafeirws. Ar ôl twf cyson mewn traffig hyd at 2004, gostyngodd traffig tua 5% ar ddiwedd y 2000au o ganlyniad i'r dirwasgiad, ond yna cododd eto ac roedd ar ei lefel uchaf erioed bron yn 2018 (Ffigur 3.4.2). Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod gan y rhan fwyaf o ardaloedd y ddinas fynediad da at wasanaethau yn gyffredinol (Ffigur 3.1.8) ac at wasanaethau bysiau yn benodol (Ffigur 3.4.3). Mae hyn wedi newid, dros dro o leiaf, o ganlyniad i'r pandemig, ond nid oedd ffigurau cymharol eto wedi'u rhyddhau erbyn dechrau 2021.

<sup>61</sup> <http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/tabular?viewId=518&geoid=1&is-setId=>


<sup>62</sup> <https://roadtraffic.dft.gov.uk/local-authorities/19>



Mae rhan sylweddol o drafftig Caerdydd yn cynnwys cymudwyr o'r tu allan i Gaerdydd. Cyn y pandemig, cymudai bron i 100,000 o bobl i Gaerdydd bob dydd, ac roedd tua 80% ohonynt yn teithio mewn car: roedd hwn yn fewnflif net o 67,800 o bobl<sup>63</sup> (Ffigur 3.4.4). Yn ogystal, gwnaed 190,000 o deithiau cymudo gan drigolion Caerdydd bob dydd, gyda tua 30,000 ohonynt yn gweithio y tu allan i'r ddinas. Yr oedd gyrywyr yn colli 143 awr y flwyddyn ar gyfartaledd i dagfeydd<sup>64</sup>. Unwaith eto, mae'r pandemig wedi newid hyn, ond nid yw hyd a lled y graddau y bu hyn yn digwydd yn glir.



Ffigur 3.4.3 Hygyrchedd bysiau yng Nghaerdydd<sup>65</sup>



Ffigur 3.4.4 Teithio presennol i Gaerdydd<sup>66</sup>


<sup>63</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf).

<sup>64</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswyllydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/papur-gwyn-trafnidiaeth/Documents/White%20Paper%20for%20Cardiff%20Transport%202019%20WELSH.pdf>


<sup>65</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswyllydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynyddol/Pages/Adroddiad-Monitro-Blynyddol.aspx>

<sup>66</sup> Ibid.

Bu tua hanner y teithiau i'r gwaith ac i addysg mewn car, ond mae hyn yn newid yn araf. Cododd cyfran trigolion Caerdydd sy'n cymudo i'r gwaith ar feic yn gyflym rhwng 2003 a 2018, ac yn enwedig ers 2015 (Ffigur 3.4.6). Mae cyfran y bobl sy'n teithio i addysg ar feic hefyd wedi codi'n sylweddol (Ffigur 3.4.7)<sup>67</sup>. Mae hyn wedi cyd-daro â chyhoeddi Strategaeth Beicio Caerdydd 2016-2026<sup>68</sup>; a'r system rentu 'Nextbike' a ddechreuodd ym mis Mawrth 2018. Yn Arolwg Trafnidiaeth 2019, nododd 66% o ymatebwyr eu bod yn cymudo i'r gwaith o leiaf unwaith yr wythnos mewn car neu fan; a dywedodd 31% eu bod yn teithio i'r gwaith o leiaf unwaith yr wythnos ar feic.<sup>69</sup>



**Ffigur 3.4.5 Teithio i'r gwaith mewn modd nad sy'n gar (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**



**Ffigur 3.4.6 Teithio i addysg mewn modd nad sy'n gar<sup>70</sup>(Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>67</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynyddol/Pages/Adroddiad-Monitro-Blynyddol.aspx>


<sup>68</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Cerdded-a-beicio/strategaeth-feicio/Documents/Strategaeth%20Feicio%20Caerdydd.pdf>

<sup>69</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Cardiff-in-2018-Final-English.pdf>

<sup>70</sup> Ibid.

### Mae Caerdydd yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy fwyfwy.

Dim ond symiau bach o ynni solar y mae Caerdydd yn eu cynhyrchu, ac ychydig o ynni o wynt, biomas neu ynni dŵr (Ffigur 3.4.7). Fodd bynnag, mae gwaith ailgylchu bwyd Tremorfa Caerdydd, a agorwyd yn 2017, yn darparu 1.8MW o drydan y flwyddyn. Caerdydd hefyd sydd â'r cyfleuster ynni o wastraff mwyaf yng Nghymru: cyfleuster adfer ynni 30MWe Parc Trident a gomisiynwyd yn 2015. Mae gwaith nwy carthion Dwyrain Caerdydd yn cynhyrchu 4MWe a 5 MWth, bron i hanner cyfanswm trydan nwy carthion Cymru<sup>71</sup>. Adeiladwyd fferm solar 9MW ar hen safle tirlenwi Ffordd Lamby: nid yw hyn wedi'i adlewyrchu eto yn Ffigur 3.4.7.



Ffigur 3.4.7 Cynhyrchu ynni adnewyddadwy (GWh) yng Nghymru 2019<sup>72</sup>

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Mae'r hinsawdd eisoes yn newid o ganlyniad i allyriadau nwyon tŷ gwyr yn y gorffennol, a disgwylir i'r duedd hon waethygu dros amser.

Bydd poblogaeth ychwanegol Caerdydd yn y dyfodol yn creu traffig ychwanegol, gan o bosib waethygu tagfeydd ac allyriadau nwyon tŷ gwyr. Gall hyn gael ei wrthbwysu gan newidiadau ffordd o fyw a ysgogwyd gan bandemig y coronafeirws, gan gynnwys mwy o bobl yn gweithio gartref, mwy o ddefnydd o

<sup>71</sup> <https://gov.wales/sites/rhagosodiad/ffeiliau/cyhoeddiadau/2020-11/energy-generation-in-wales-2019.pdf>

<sup>72</sup> Ibid.

wasanaethau a chyfleusterau lleol yn hytrach na phell, a mwy o gerdded a beicio. Byddai defnyddio cerbydau trydan yn fwy eang hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr os yw'r cymysgedd trydan yn deillio'n bennaf o ynni adnewyddadwy.

Ar ddechrau 2020 sicrhodd Cyngor Caerdydd gyllid gan y llywodraeth i ddatblygu rhwydwaith gwres ar draws y ddinas, gan ddefnyddio gwres rhannol o waith ynni o wastraff Viridor/Parc Trident.<sup>73</sup> Disgwylir i'r system gyflenwi gwres i Ganolfan Mileniwm Cymru, Neuadd y Sir, Sgwâr Canolog Caerdydd, canolfan siopa Dewi Sant ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd<sup>74</sup>.

Un Blaned Caerdydd<sup>75</sup>, a gyhoeddwyd yn 2020, yn nodi saith prif gam gweithredu i ganiatáu i Gaerdydd ddod yn Ddinas a Chyngor Carbon Niwtral erbyn 2030:

1. Ôl-ffitio tai a datblygu ar raddfa fawr, er mwyn lleihau tloidi tanwydd a chyflyrau iechyd cysylltiedig
2. Datblygu ynni isel gwydn ac sy'n effeithlon o ran adnoddau
3. Cynhyrchu ynni cost-effeithlon isel i ddod â manteision swyddi a hinsawdd
4. Trafnidiaeth actif ynni isel – cymorth ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn, clybiau ceir, seilwaith gwefru a llwybrau teithio llesol
5. Gwyrddu'r ddinas, gan gynnwys mwy o ddarpariaeth coed a rheoli tir sy'n fwy cyfeillgar i fioamrywiaeth
6. Bwyd fforddiadwy carbon-isel
7. Caffael gan ddefnyddio modelau economi cylchol, a chontractau sy'n fwy atebol am eu canlyniadau o ran yr hinsawdd.

Mae Cyngor Caerdydd yn hyrwyddo Cledrau Croesi newydd i Gaerdydd a llinell dramffordd newydd, Cylch Caerdydd (gweler Ffigur 2.4). Byddai'r rhain yn cysylltu'r cymunedau newydd yng ngorllewin y ddinas, a chymunedau presennol yn y dwyrain sy'n cael eu gwasanaethu'n wael ar hyn o bryd gan drafnidiaeth gyhoeddus, â chanol y ddinas a Chaerdydd Canolog. Mae'r Cyngor hefyd yn anelu at leihau prisiau bysiau, gwella gwasanaethau bysiau gan gynnwys blaenoriaeth i fysiau wrth oleuadau traffig; sefydlu cyfleusterau parcio a theithio newydd gan gynnwys wrth Gyffordd 33 a Chyffordd 32/A470; a gwella cyfleusterau beicio yn y ddinas<sup>76</sup>. Mae system rhentu beiciau NextBike Caerdydd yn caniatáu i feiciau fod yn hygyrch, gan gynnwys i bobl o gymunedau difreintiedig<sup>77</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf Maes Awyr Caerdydd a oedd, cyn y pandemig, yn anelu at ddyblu ei niferoedd teithwyr erbyn diwedd cyfnod y CDLIN<sup>78</sup>: byddai hyn yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr ychwanegol.

---

<sup>73</sup> <https://www.caerdyddunblaned.co.uk/>

<sup>74</sup> [www.walesonline.co.uk/news/local-news/cardiff-councils-26m-underrhwydwaith-tir-17024200](http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/cardiff-councils-26m-underrhwydwaith-tir-17024200)

<sup>75</sup> <https://www.caerdyddunblaned.co.uk/>

<sup>76</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyredd-a-Theithio/transport-policies-plans/papur-gwyn-trafnidiaeth/Documents/White%20Paper%20for%20Cardiff%20Transport%202019%20WELSH.pdf>

<sup>77</sup> [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf)

<sup>78</sup> [https://www.cardiff-airport.com/uploads/Masterplan%20Adroddiad%20FINAL%20JUNE19%20lower\\_compressed%20%281%29.pdf](https://www.cardiff-airport.com/uploads/Masterplan%20Adroddiad%20FINAL%20JUNE19%20lower_compressed%20%281%29.pdf)



### 3.5 Treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y Gymraeg

#### Cyflwyniad

Mae Caerdydd fel y gellir gweld a'i brofi heddiw, a'i henwau lleoedd, yn adlewyrchu cyfoeth o ddylanwadau wrth iddi ddatblygu o fod yn gymuned fechan ar lannau Afon Taf. Mae tystiolaeth yn dal i fodoli o'r cyfnod Rhufeinig a chyfnodau allweddol eraill yn natblygiad y ddinas. Yn fwyaf nodedig, gwelodd cyfnod cloddio am lo yng nghymoedd y de ffyniant digynsail yn dod i Gaerdydd o ran ei thwf economaidd ac o ran ei maint. Chwaraeodd Caerdydd ran hanfodol fel porthladd a chanolfan fasnachol. Mae'r etifeddiaeth Fictoraidd ac Edwardaidd o ran patrymau strydoedd ac adeiladau yn dal i fod yn amlwg ac mae'n rhoi cymeriad unigryw iawn i ardaloedd mawr o'r ddinas. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddynodiadau ffurfiol er mwyn helpu i nodi a diogelu nodweddion pwysicaf treftadaeth hanesyddol a phensaernïol Caerdydd. Er bod Caerdydd yn parhau i ddatblygu, mae'n bwysig bod ei hetifeddiaeth ddiwylliannol, hanesyddol a phensaernïol gyfoethog yn cael ei deall, ei diogelu a'i rheoli'n llawn.

#### **Mae Caerdydd yn cynnwys ystod eang o ardaloedd, adeiladau a henebion sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth hanesyddol sy'n gweddu i'w statws fel Prifddinas**


Mae gan Gaerdydd 28 o Henebion Cofrestredig. Mae olion archeolegol yn cynnig gwybodaeth bwysig, sy'n aml yn anadferadwy, am y gorffennol. Mae eu hymchwilio, a, lle y bo'n briodol, eu cadw yn bwysig yn ei rinwedd ei hun a gall ddarparu adnodd addysgol a thwristiaeth amhrisiadwy. Mae pedair ardal sy'n sensitif yn archeolegol wedi'u nodi yng Nghaerdydd: yng Nghanol y Ddinas, Sain Ffagan/Llanfihangel-ar-Elái, Lefelau Gwynllŵg, a Llandaf. Maent yn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf tebygol lle gallai effaith datblygiad ar yr adnodd archeolegol fod yn broblem wrth benderfynu ar gais cynllunio. Cyhoeddodd Cyngor Caerdydd Ganllawiau Cynllunio Atodol ar yr ardaloedd hyn ym mis Gorffennaf 2018<sup>79</sup>.

Mae Cadw wedi rhestru 855 o adeiladau neu strwythurau yng Nghaerdydd fel rhai sydd o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae gan Gaerdydd hefyd 27 o ardaloedd cadwraeth (sy'n cwmpasu cyfanswm o 811.7 hectar) a ddynodwyd oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Maen nhw'n amrywio'n fawr o ran maint a chymeriad o bentrefi Sain Ffagan a Lloneirwg i faestrefi Fictoraidd ac Edwardaidd mwy diweddar a ddatblygodd yn ystod 'blynyddoedd ffyniant' Caerdydd. Mae gan bob un ohonynt Strategaethau Ardal Gadwraeth sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer yr ardaloedd. Mae gan Gaerdydd 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol sy'n cwmpasu 468 hectar. Maent wedi'u gwasgaru'n eang ac o gymeriad cyferbyniol. Mae rhai o'r parciau hanesyddol mwy yn cyrraedd o ganol y ddinas i'r maestrefi allanol. Gerddi Gradd I Caerdydd yw Castell Caerdydd a Pharc Bute, Parc y Rhath a Chastell Sain Ffagan.

---

<sup>79</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Ategol/Documents/Archaeoleg%20ac%20Ardaloedd%20Archeolegol%20Sensitif%20-%202018.pdf>

Mae treftadaeth Caerdydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r rhai a nodwyd mewn amddiffyniadau statudol. Mae holl adeiladwaith adeiledig hanesyddol y ddinas yn helpu i ddiffinio cymeriad y ddinas a chefnidroedd diwylliannol amrywiol ei thrigolion a'i hymwelwyr. Mae Ffigur 3.5.1 yn dangos hyd a lled safleoedd, nodweddion, adeiladau ac ardaloedd dynodedig. Yn 2015 (y mwyaf diweddar oedd ar gael yn gynnar yn 2021), roedd 27 o adeiladau rhestredig Caerdydd mewn perygl, ac roedd 116 yn agored i niwed. Nid oedd 85% o adeiladau hanesyddol mewn perygl, o'i gymharu ag 86% yn 2011 ac 83% yn 2006<sup>80</sup>.



**Ffigur 3.5.1 Safleoedd, nodweddion, adeiladau ac ardaloedd o bwysigrwydd i gadwraeth (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>80</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cadwr-Amgylchedd-Hanesyddol/Documents/Caerdydd%20Arolwg%20Adeiladau%20Rhestredig%20-%20202015.pdf>.

**Mae atyniadau diwylliannol a hanesyddol y Ddinas yn cyflawni rôl genedlaethol a rhanbarthol bwysig, gan ddenu nifer fawr o ymwelwyr bob blwyddyn**

Yn 2017, ymwelodd dros 21 miliwn o bobl â Chaerdydd, 5% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, gan ddod ag £1.3 biliwn i mewn. Mae Caerdydd wedi cynnal Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yn ddiweddar, Ras Fôr Volvo, a'r Eisteddfod Genedlaethol<sup>81</sup>. Ym mis Rhagfyr 2019, daeth Caerdydd yn ddinas gerdd gyntaf y Deyrnas Gyfunol, a'i strategaeth gerddoriaeth yw rhoi cerddoriaeth wrth wraidd dyfodol Caerdydd<sup>82</sup>. Wedi dweud hynny, mae llawer o hyn wedi lleihau neu ei atal yn ystod pandemig y coronafeirws.

---

<sup>81</sup> <https://businessnewswales.com/cardiff-boasts-record-visitor-numbers-during-2017/>

<sup>82</sup> <https://www.creativecardiff.org.uk/creative-cardiff-news/cardiff-declared-music-city-music-strategy-development-launches>



### Siaredir y Gymraeg fwyfwy yng Nghaerdydd


Mae iaith yn arf amhrisiadwy wrth greu lle a hunaniaeth. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canfu arolwg poblogaeth Cymru 2019 fod 22% o drigolion Caerdydd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (Ffigur 3.5.2), o gymharu â chyfartaledd Cymru o 29%<sup>83</sup>. Mae Ffigur 3.12.1 yn dangos cyfran trigolion Caerdydd a allai siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn 2011: mae'r gyfran uchaf yng Nghreigau/Sain Ffagan, Glanyrafon a Llandaf. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ymhellach ers hynny<sup>84</sup>, gyda llawer o'r cynnydd i'w briodoli i blant ifanc<sup>85</sup>. O ran niferoedd yn hytrach na chyfran, Caerdydd sydd â'r trydydd nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae addysg Gymraeg yng Nghaerdydd wedi symud o gael ei 'harwain gan y galw' i 'hyrwyddo gweithredol', ac erbyn hyn mae gan Gaerdydd dair ysgol uwchradd Gymraeg, 15 ysgol gynradd, dwy ysgol gynradd ffrwd ddeuol, a dwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg.

### Mae enwau lleoedd Cymraeg, enwi strydoedd ac arwyddion yn helpu i sicrhau y defnyddir y Gymraeg yn fwy gweithredol

O ganlyniad i Safonau Rheoliad y Gymraeg (Rhif 1) 2015, rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran arwyddion a hysbysiadau swyddogol a ddangosir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys arwyddion cyfeiriadol, arwyddion adeiladau, arwyddion teithio ac arwyddion gwybodaeth gyffredinol. Nod polisi enwi strydoedd Caerdydd 2019 yw rhoi enw Cymraeg i bob stryd newydd sydd wedi'u gwreiddio yn ardal, hanes a threftadaeth yr ardal gyfagos. Disgwylir y bydd rhestr ffurfiol o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer anheddau ar gael yn 2021. Mae Caerdydd Ddwieithog a phanel enwi yn ymgysylltu'n weithredol â



**3.5.2 Cyfran trigolion Caerdydd sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, 2011<sup>86</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

Ffigur

<sup>83</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>

<sup>84</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/L/statistics-and-research/2018-12/160622-workforce-welsh-language-support-primary-care-cardiff-vale-en.pdf>

<sup>85</sup> Cyngor Caerdydd (2020) Asesiad ACI Drafft o'r Gymraeg.

<sup>86</sup> Ibid.



datblygwyr i ddarparu enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, gwybodaeth marchnata safleoedd dwyieithog, ac arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer datblygiadau masnachol. Cyhoeddodd Caerdydd Ganllaw Cynllunio Atodol drafft yn 2019 yn ymwneud â ffryntiadau siopau ac arwyddion, sy'n cynnwys argymhellion ynghylch defnyddio arwyddion dwyieithog<sup>87</sup>.

### **Dyfodol tebygol heb y cynllun**

Nod y Cynllun Datblygu Lleol yw diogelu a gwella treftadaeth y ddinas. Fel rhan o'i gynnig 'dinas gerdd', mae cabinet cyngor Caerdydd wedi penodi Live Nation ac Oak View Group i ddatblygu a gweithredu arena gerddoriaeth fyw. Bydd gan yr arena newydd le i 15,000 o wylwyr, dwbl maint lleoliad dan do mwyaf presennol y ddinas, y Motorpoint. Rhagwelir y bydd yr arena yn costio £150 miliwn i'w chodi, ac yn creu 1,000 o swyddi pan fydd yn agor, y disgwylir i hynny fod yn gynnar yn 2024<sup>88</sup>.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd yn debygol o gynyddu yn y dyfodol mewn ymateb i bolisiau fel Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Dwyieithog Caerdydd 2019 - 2022<sup>89</sup>, Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2017-2022<sup>90</sup>, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020<sup>91</sup>, a'r Polisi Enwi Strydoedd<sup>92</sup>. O ganlyniad, disgwylir i'r Gymraeg gael ei chyflwyno i gymunedau newydd a chymunedau sy'n datblygu; Bydd yr Hen Lyfrgell – Canolfan Ddiwylliant Cymru Caerdydd yn cael ei chefnogi; a dylid gweld cyfleoedd cynyddol i bobl dderbyn iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, mae Caerdydd yn debygol o fod â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw Ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru o fewn ychydig flynyddoedd.

---

<sup>87</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Ategol/Documents/CCA%20Dyluniad%20ac%20Arwyddion%20Blaen%20Siop%20\(Mehfein%202019\).pdf](https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Ategol/Documents/CCA%20Dyluniad%20ac%20Arwyddion%20Blaen%20Siop%20(Mehfein%202019).pdf)

<sup>88</sup> <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s42643/Cabinet%2026%20Nov%202020%20Indoor%20Arena.pdf?LLL=0>

<sup>89</sup> <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwieithog/Documents/Cynllun%20Gweithredu%20Strategaeth%20Caerdydd%20Ddwieithog%202019-22.pdf>

<sup>90</sup> <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwieithog/Documents/Strategaeth%20Caerdydd%20Ddwieithog.pdf>

<sup>91</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Cyhoeddiadau/Cynllun-Strategol-Cymraeg-mewn-Addysg/Pages/default.aspx>

<sup>92</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/Enwi-Strydoedd/Documents/Polisi%20Enwi%20Strydoedd.pdf>

### 3.6 Economi

#### Cyflwyniad


Mae Caerdydd wedi gweld newidiadau mawr dros y ganrif ddiwethaf gyda dirywiad y diwydiant glo, goruchafiaeth gynyddol y sector gwasanaethau, a datganoli yn cyfuno i lunio'r ddinas a rhoi iddi ei siâp heddiw.

#### Caerdydd yw'r sbardun economaidd allweddol ar gyfer y de-ddwyrain

Caerdydd yw prif sbardun economi de Cymru. Mae nifer y swyddi yng Nghaerdydd wedi codi'n gyflym, o 189,000 yn 2000 i 241,000 yn 2018<sup>93</sup>. Arweiniodd y dirwasgiad economaidd at weld nifer y swyddi'n aros yn sefydlog rhwng 2004 a 2012, ond mae nifer y swyddi wedi codi'n sylweddol ers 2014<sup>94</sup> - gweler Ffigur 3.6.1.

Gostyngodd lefelau cyflogaeth yn ystod y dirwasgiad, o 71% yn 2004 i 65% yn 2012, ond yna cododd eto, ac ym mis Medi 2019 roedd yn 79.6%. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig (76.8%) a gwledydd Prydain (78.9%)<sup>95</sup>. Nid oes ffigurau sy'n fwy diweddar na mis Mehefin 2020 ar gael, er bod lefelau cyflogaeth yn debygol o fod wedi gostwng yn ystod pandemig y coronafeirws.

Cyfartaledd cyflogau yng Nghaerdydd yn 2020 oedd £14.36 yr awr, i lawr o £15.12 yn 2019. Roeddent yn is na chyfartaledd gwledydd Prydain o £15.18 yr awr (roeddent yn uwch na chyfartaledd gwledydd Prydain yn 2019), ond roeddent yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru (£13.83 yn 2020). Cyflog wythnosol gros i weithwyr llawn amser oedd



**Ffigur 3.6.1 Nifer y swyddi yng Nghaerdydd<sup>96</sup>**

<sup>93</sup> <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx#tabjobs>. Y data o 2018 yw'r diweddaraf sydd ar gael yn gynnar yn 2021.


<sup>94</sup> [https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/subreports/jd\\_time\\_series/report.aspx?](https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/subreports/jd_time_series/report.aspx?)

<sup>95</sup> <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx#tabrespop>


<sup>96</sup> <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx#tabjobs>

£544, gyda'r un tueddiadau â thâl fesul awr.

Mae Ffigurau 3.6.2 a 3.6.3 yn dangos ardaloedd o gyflogaeth ac incwm uchel ac isel yng Nghaerdydd yn 2019. Unwaith eto, mae cyflogaeth ac incwm isel wedi'u crynhoi'n gyffredinol yn y 'bwa deheuol', yn enwedig Trelái/Caerau, Butetown, Adamsdown, Trowbridge a Llanrhymni.



**Ffigur 3.6.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog 2019 cyflogaeth<sup>97</sup>**



**Ffigur 3.6.3 Mynegai Amddifadedd Lluosog incwm<sup>73</sup>**

Yn 2019, roedd Caerdydd yn 16 (allan o 379) ym mynegai cystadleurwydd y Deyrnas Gyfunol, sy'n ystyried deg ffactor economaidd fel cyfraddau gweithgarwch economaidd, busnesau newydd a chynhyrchiant<sup>98</sup>. Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth Caerdydd (GYC) y pen – sy'n ddangosydd cynhyrchiant

<sup>97</sup> Gweler Ffigur 3.1.3 ar gyfer yr allwedd

<sup>98</sup> [https://www.researchgate.net/figure/01-CITY-UK-COMPETITIVENESS-INDEX-2019-UK100\\_tbl1\\_331980020](https://www.researchgate.net/figure/01-CITY-UK-COMPETITIVENESS-INDEX-2019-UK100_tbl1_331980020)

allweddol - wedi rhagori'n gyson ar gyfartaledd y Deyrnas Gyfunol ers 1998. Gweithgareddau ariannol/yswiriant a gweithgareddau iechyd dynol/gwaith cymdeithasol yw'r cyfranwyr mwyaf i GYC Caerdydd<sup>99</sup>.

**Mae diwydiannau sector gwasanaethau Caerdydd yn tyfu, ac mae llawer o'i gyflogaeth yn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru**

Mae gan Gaerdydd lai o ffocws ar weithgynhyrchu, adeiladu a masnach cyfanwerthu/manwerthu na chyfartaledd Cymru a gwledydd Prydain; a mwy o ffocws ar gyllid/yswiriant, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus<sup>100</sup> Mae swyddi gweithgynhyrchu yng Nghaerdydd, fel mewn mannau eraill, wedi dirywio'n gyflym dros y 30 mlynedd diwethaf.

Roedd 45% o'r bobl a gyflogwyd yng Nghaerdydd yn gynnar yn 2019 yn un o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru (Tabl 3.6.1). Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol oedd y mwyaf o'r rhain o bell ffordd yn y ddinas, ac roedd Caerdydd i gyfrif am 30% o'r swyddi hyn yng Nghymru. Mae diwydiannau creadigol a TGCh hefyd yn fwy cyffredin yn y ddinas nag ar draws Cymru gyfan, gyda Chaerdydd unwaith eto i gyfrif am tua 30% o gyfanswm cyflogaeth Cymru yn y sectorau hyn.

Mae swyddi yn y sectorau manwerthu a lletygarwch, twristiaeth ehangach a'r sectorau creadigol wedi dioddef yn arbennig o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, felly bydd y niferoedd hyn wedi newid

Sector â blaenoriaeth	Caerdydd		Cymru	
	Rhif (1000oedd)	%	Rhif (1000oedd)	%
Deunyddiau/gweithgynhyrchu uwch	4.5	2.0	81.5	6.0
Adeiladu	14.5	6.4	109.4	8.1
Diwydiannau creadigol	18.0	7.9	58.0	4.3
Ynni a'r amgylchedd	26.2	11.5	155.0	11.4
Ffermio a bwyd	-	-	51.4	3.8
Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol	39.9	17.5	137.7	10.1
Gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)	8.5	3.7	31.0	2.3
Gwyddorau bywyd	2.0	0.9	13.5	1.0
Twristiaeth	18.3	8.0	127.3	9.4
<b>Mewn Sector â Blaenoriaeth</b>	<b>102.9</b>	<b>45.3</b>	<b>600.2</b>	<b>44.2</b>
Ddim mewn Sector â Blaenoriaeth	124.5	54.7	758.7	55.8
Cyfanswm	227.4	100.0	1359.0	100.0

**Tabl 3.6.1 Cyflogaeth yn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, 2018-19<sup>101</sup>**

<sup>99</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf).

<sup>100</sup> <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx#tabearn>

<sup>101</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf)




ers dechrau 2019.

### **Mae'r gweithlu wedi'i begynnu rhwng graddedigion cymwysedig a gweithlu sgiliau isel**

Mae poblogaeth Caerdydd yn perfformio'n well na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol yn gyson o ran addysg a sgiliau<sup>102</sup>. Mae hyn yn cael ei bennu'n rhannol gan ddemograffeg, gyda phoblogaeth gymharol ifanc Caerdydd a bodolaeth sawl prifysgol. Yn 2010, roedd gan 40% o boblogaeth oedran gweithio Caerdydd 4+ NVQ, ac erbyn diwedd 2019 roedd hyn yn 46.4%<sup>103</sup>. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â 36.3% ar gyfer Cymru a 40.3% ar gyfer y Deyrnas Gyfunol<sup>104</sup>. Mae gan Gaerdydd dri sefydliad addysg uwch, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Choleg Cerdd a Drama Cymru, sy'n darparu tua 4,000 o raddedigion newydd bob blwyddyn. Mae gan Brifysgol De Cymru gampws yng Nghaerdydd hefyd.

Yn 2008, roedd gan Gaerdydd bron i 20% o'r 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach is mwyaf difreintiedig ar gyfer Cymru ar gyfer addysg, ond roedd hyn i lawr i 7% ym mis Rhagfyr 2018<sup>105</sup>. Fodd bynnag, mae gan Gaerdydd ardaloedd o gyflawniad addysgol isel o hyd, yn bennaf yn rhan ddeheuol a dwyreiniol y ddinas, gan gynnwys Trelái, Caerau, Butetown, Y Sblot, Trowbridge a Llanrhymni, fel y dangosir gan Ffigur 3.6.4.



**Ffigur 3.6.4 Mynegai Amddifadedd Lluosog addysg<sup>106</sup>**

**Mae ardaloedd sylweddol o dir cyflogaeth wedi newid i ddefnyddiau amgen (yn arbennig tai) er bod tir ar gyfer cyflogaeth ar gael o hyd**

<sup>102</sup> <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx?town=Cardiff#tabquals>

<sup>103</sup> Ibid.

<sup>104</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf)

<sup>105</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/localauthorityanalysis>

<sup>106</sup> Gweler Ffigur 3.1.3 ar gyfer yr allwedd

Mae amodau newidiol y farchnad (fel y disgrifir uchod) wedi arwain at newid yn y galw oddi wrth weithgynhyrchu tuag at ddefnyddiau amgen fel tai. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys safle Arjo Wiggins ger Pont Trelái, safle AWE ar Heol Caerffili, a Heol Maes y Coed.

Dyrannodd Cynllun Datblygu Lleol 2016 132ha o dir cyflogaeth ar safleoedd dynodedig. Y tir cyflogaeth a ganiateir hyd yma yw:

- 2016/17: 11.6ha
- 2017/18: 2.12ha
- 2018/19: 3.16ha

Mae'r caniatadau hyn wedi bod ar gyfer swyddfeydd mewn adeiladau uchel, dwysedd uchel. Ni welwyd colli unrhyw dir cyflogaeth ar safleoedd gwarchoddedig.

Bu'r defnydd o dir cyflogaeth fel a ganlyn:

- 2016/17: 12.3ha
- 2017/18: 0.5ha
- 2018/19: 1.6ha

Unwaith eto, bu hyn ar gyfer swyddfeydd yn bennaf<sup>107</sup>.

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Cyn pandemig y coronafeirws, roedd disgwyl i gyflogaeth barhau i gynyddu yng Nghaerdydd i'r dyfodol rhagweladwy: mae hyn yn llai clir ar hyn o bryd. Mae tir cyflogaeth hefyd yn parhau i gael ei gollu i ddefnydd preswyl. Ar ôl y pandemig, mae cyfran y bobl sy'n gweithio gartref yn debygol o ostwng, ond nid i'r lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn arwain at ystyried sut y dylai canol y ddinas a chanolfannau siopa lleol/dosbarth weithio yn y dyfodol.

Mae'r CDLI presennol wedi dyrannu safle cyflogaeth newydd mawr yng Ngwynllŵg. Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y safle a gorsaf drenau prif linell newydd, 'Parc Caerdydd', ym mis Ionawr 2021 (Ffigur 3.6.5).

**Ffigur 3.6.5 Safle cyflogaeth arfaethedig 'Parc Caerdydd' sy'n dangos y brif linell reilffordd newydd arfaethedig<sup>108</sup>**



<sup>107</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynyddol/Pages/Adroddiad-Monitro-Blynyddol.aspx>. Adolygiad Monitro Blynyddol 2018/19 oedd y diweddaraf yn gynnar yn 2021.

<sup>108</sup> [https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications/applicationDetails.do?activeTab=documents&keyVal=\\_CARDIFF\\_DCAPR\\_133156&lang=CY](https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications/applicationDetails.do?activeTab=documents&keyVal=_CARDIFF_DCAPR_133156&lang=CY)

### 3.7 Iechyd a Llesiant

#### Cyflwyniad

Yn gyffredinol, mae gan Gaerdydd gyflyrau iechyd a chymdeithasol cyfartalog neu ychydig yn well o'u cymharu â gweddill Cymru, ac yn 2009 dyfarnwyd Statws Dinas Iach i Gaerdydd gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n dangos ymrwymiad i wella iechyd a llesiant pobl leol.

Gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar ddisgwyliad oes, gan gynnwys ffordd o fyw, incwm, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau a'r amgylchedd ehangach. Disgwyliad oes adeg geni trigolion Caerdydd yn 2012 oedd 78.2 mlynedd i ddynion ac 82.7 i fenywod, yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru<sup>109</sup>. Mae canfyddiadau trigolion Caerdydd o'u hiechyd hefyd yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru. Mae gan 45% o oedolion Caerdydd salwch hirsefydlog; mae gan 32% salwch hirsefydlog cyfyngol; ac mae gan 16% salwch hirsefydlog cyfyngol iawn. Mae hyn ychydig yn well na chyfartaledd Cymru<sup>110</sup>.

Fodd bynnag, mae'r ffigurau cyfartalog hyn yn cuddio anghysondebau iechyd mawr yng Nghaerdydd. Yn 2010-14, roedd gan y dynion mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd ddisgwyliad oes 11 mlynedd yn llai na'r rhai mwyaf breintiedig<sup>111</sup>, a 24.4 blynedd yn llai o ddisgwyliad oes iach; i fenywod roedd hyn yn 9 mlynedd a 22 mlynedd yn y drefn honno. Mae'r anghydraddoldebau hyn ymysg yr uchaf yng Nghymru<sup>112</sup>. Mae'r gwahaniaeth yn nisgwyliad oes iach dynion wedi gwaethgu'n sylweddol ers 2005-09 pan oedd yn 20.6 mlynedd; nid yw'r gwahaniaethau eraill wedi newid yn sylweddol<sup>113</sup>. Yn benodol, mae gan drigolion Trelái, Butetown, Y Sblot, Trowbridge a Llanrhymini iechyd gwaeth na'r cyfartaledd (Ffigur 3.7.1).

Yn ddiddorol, nid oedd cyfradd achosion y coronafeirws hyd at ddiwedd Ionawr 2021 yn adlewyrchu'r anghysonderau iechyd hyn yn amlwg. Trowbridge, Cathays, Grangetown a de Glanrafon oedd â'r gyfradd uchaf o achosion (Ffigur 3.7.2).

Mae gan drigolion Caerdydd ffyrdd iachach o fyw na chyfartaledd Cymru: maent yn bwyta mwy o ffrwythau/llysiau, yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol, ac yn llai tebygol o ysmegu<sup>114</sup>. Fodd bynnag, mae mwy na hanner poblogaeth Caerdydd dros bwysau, yn ordew neu dan bwysau; ac mae bron i chwarter yn gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol yr wythnos. Mae ffordd o fyw yn cyfrannu'n sylweddol at y tebygolrwydd o fyw gyda chyflyrau cronig yn ddiweddarach mewn bywyd<sup>115</sup>.

---

<sup>109</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Life-Expectancy/LifeExpectancy-by-LocalAuthority-Gender>. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael yn gynnar yn 2021.

<sup>110</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/genhealthillness-by-localauthorityhealthboard>


<sup>111</sup> Yn ôl mynegai Anghydraddoldeb Slope

<sup>112</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Life-Expectancy/inequalitygapinlifeexpectancyandhealthyliifeexpectancyatbirthslopeindexofinequalityinyears-by-localhealthboard-localauthority>. Daw hyn o 2012-14, y data diweddaraf sydd ar gael yn gynnar yn 2021.


<sup>113</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Cardiff-in-2018-Final-English.pdf>

<sup>114</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Cardiff-in-2018-Final-English.pdf>

<sup>115</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/well-being-assessment/people-cardiff-healthy/>



**Ffigur 3.7.1** Mynegai Amddifadedd Lluosog iechyd<sup>116</sup>



**Ffigur 3.7.2** Achosion coronafeirws yng Nghaerdydd, i 9 Chwefror 2021 (y cysgodi tywyllach yw'r gyfradd uchaf)<sup>117</sup>

### **Mae lefelau troseddu hefyd wedi gwella ar y cyfan neu wedi aros yn sefydlog**

Roedd mwy na 48,000 o droseddau hysbysadwy yng Nghaerdydd yn 2019, gyda'r gyfran uchaf yn droseddau trais a rhywiol (25%), ymddygiad gwrthgymdeithasol (19%) a dwyn o siopau (9%)<sup>118</sup>. Mae'r lefelau troseddu cyffredinol a gofnodwyd yng Nghaerdydd wedi gostwng yn sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf, wedi'u hysgogi gan ostyngiad sydyn mewn troseddau cerbydau, difrod troseddol a llosgi bwriadol, a throseddau dwyn eraill. Mae de a dwyrain y ddinas yn agored i lefelau uwch o droseddu na mannau eraill.

Ond, ni welwyd yr un lefel o ostyngiad o ran ofni trosedd. Yn 2018, teimlai llai na hanner ymatebwyr yr arolwg fod Caerdydd yn ddiogel, o'i gymharu â mwy na 70% yn 2016. Y prif resymau dros deimlo'n anniogel yw ymddygiad gwrthgymdeithasol neu feddw; gangiau, pobl ifanc a begera; ac (ar gyfer beicwyr) gyrwyr

<sup>116</sup> Gweler Ffigur 3.1.3 ar gyfer yr allwedd

<sup>117</sup> [https://public.tableau.com/profile/publiC.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Prif\\_grynodeb](https://public.tableau.com/profile/publiC.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Prif_grynodeb)


<sup>118</sup> <https://www.cardiffpartnership.co.uk/well-being-assessment/people-cardiff-healthy/>




perylus a diffyg seilwaith pwrpasol. Mae pobl ag anabledd neu gyflyrau iechyd, a phobl sy'n byw yn y Bwa Deheuol yn arbennig o debygol o deimlo'n anniogel<sup>119</sup>.

**Mae ansawdd amgylcheddol Caerdydd – sy'n benderfynydd iechyd – yn wael ar y cyfan**

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dwyn ynghyd wybodaeth am ansawdd aer, perygl llifogydd a manau gwyrdd mewn mynegai amgylchedd ffisegol. Caerdydd sydd â'r amgylchedd ffisegol ail waethaf o blith awdurdodau Cymru ar ôl Casnewydd: mae ganddi 22.5% o'r 10% ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig Cymru<sup>120</sup>. Dim ond Pentrych a Radur sydd yn y 50 lleiaf difreintiedig. Mae Ffigur 3.7.3 yn dangos, o dan y mynegai hwn, fod Y Sblot, Butetown, Grangetown a Llys-faen yn gwneud yn arbennig o wael. Mae hyn oherwydd ansawdd aer gwael, a drafodir yn Adran 3.2; diffyg manau gwyrdd, a drafodir yn Adran 3.9; a'r tebygolrwydd o lifogydd a drafodir yn Adran



3.11. **Penderfynyddion iechyd<sup>121</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**



**Ffigur 3.7.3 Mynegai Amddifadedd Lluosog amgylchedd**

Effeithir ar iechyd hefyd gan addysg, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, ansawdd tai, a drafodir yn Adranau 3.1 a 3.6 – gweler Ffigur 3.7.4.

<sup>119</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf), <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/Ask%20Cardiff%202019%20Report.pdf>

<sup>120</sup> ACEHI (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is) yw'r ardal a ddefnyddir i ddadansoddi amddifadedd. Mae'n cynrychioli poblogaeth o 1000 – 1500.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/localauthorityanalysis>


<sup>121</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/health-profile-for-england-2018/chapter-6-wider-determinants-of-health>

### Yn gyffredinol, mae diogelwch ar y ffyrdd wedi gwella

Dengys Ffigur 3.7.5 y bu tuedd sydyn ar i lawr yn nifer yr anafiadau bach o ganlyniad i ddamweiniau ffordd, gan godi eto yn 2019. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yn ddifrifol wedi gostwng yn llawer arafach. Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd neu eu hanafu wedi lleihau'n sylweddol dros amser.<sup>122</sup> Canfu arolwg yn 2018 fod 70% o ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr mewn strydoedd preswyl a strydoedd addas eraill yng Nghaerdydd.<sup>123</sup>

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Heb ymyrraeth fwy gweithredol, mae'n ymddangos y bydd y bwlch rhwng canlyniadau gymunedau yn annhebygol o leihau. O ystyried y cysylltiad agos rhwng canlyniadau mae'r bwlch mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach pobl sy'n byw yn rhannau cyddinas yn debygol o gynyddu heb ymyrraeth.



**Ffigur 3.7.5 Tueddiadau damweiniau ffyrdd ar gyfer Caerdydd<sup>124</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>122</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/damweiniau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-2018-238.pdf>

<sup>123</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market\\_Apr%2018\\_Mar%2019.pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2018_Mar%2019.pdf)

<sup>124</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents/accidents/roadaccidents-by-severity-area>

### 3.8 Tir, pridd a mwynau

#### Cyflwyniad


Mae tir yn ofyniad hanfodol ar gyfer datblygu, a'r sail ar gyfer amaethyddiaeth, mannau agored a buddiannau bioamrywiaeth. Mae tir amaethyddol a rhandiroedd yn helpu i ddarparu bwyd lleol, yn ogystal â gwella iechyd corfforol a meddyliol preswylwyr. Mae tir llwyd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu, er y gallai fod angen gwaith adfer ar safleoedd sydd wedi'u halogi yn sgil gweithgareddau diwydiannol blaenorol.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn 2009, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*<sup>125</sup>, yn cynnwys ôl troed ecolegol Cymru fel un o'i phum prif ddangosydd (sy'n cynrychioli defnydd cynaliadwy o adnoddau). Ôl troed ecolegol yw cyfanswm arwynebedd yr ecosystemau tir a dŵr cynhyrchiol sydd eu hangen i gynhyrchu'r adnoddau y mae'r boblogaeth yn eu defnyddio ac i gymhathu'r gwastraff dilynol<sup>126</sup>: mae'n mesur a ydym yn byw o fewn terfynau adnoddau'r Ddaear. Yn 2012, roedd cyfanswm biogapasi'r Ddaear tua 1.7 'hectar byd-eang' y pen: gyda phoblogaeth fyd-eang gynyddol, bydd hyn yn lleihau.

Cynhaliwyd dadansoddiad ôl troed ecolegol ar gyfer Caerdydd gan ddefnyddio data 2001. Dangosodd hyn fod trigolion Caerdydd yn defnyddio tua 5.3 hectar byd-eang y pen, neu fwy na thair gwaith y gyfran deg 'un blaned' fyd-eang<sup>127</sup>. Dadansoddiad dilynol ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio data 2011 a defnyddio methodoleg

a. Caerdydd, 2001

b. Cymru, 2011



**Ffigur 3.8.1 Ôl troed ecolegol.** Mae'r cylchoedd gwyrdd yn cynrychioli cyfran deg 'un blaned' y Ddaear. Nid oes modd cymharu a. a b. (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

<sup>125</sup> <https://www.bridgend.gov.uk/media/1505/wd32.pdf>

<sup>126</sup> Rees, E. (2000) Eco-footprint analysis: merits and brickbats. *Ecological Economics* 32(3), 371-4.

<sup>127</sup> Collins, A. and Fairchild, R. (2007) Sustainable food consumption at a sub-national level: An ecological footprint, nutritional and economic analysis. *Journal of Environmental Policy and Planning* 9(1), 5-30.

gwahanol, yn dangos bod yr ôl troed ecolegol yn mynd yn llai ond yn dal i fod rhwng 1.2 a 1.8 gwaith y cyfartaledd byd-eang<sup>128</sup>. Roedd ôl troed Caerdydd ar y pryd ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, yn rhannol am fod ganddi ôl troed carbon is na chyfartaledd Cymru, ar 3.11gha o'i gymharu â 3.28ha. Dengys Ffigur 3.8.1 fod cynhyrchu/cludo bwyd, tai a thrafnidiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at ôl troed ecolegol Cymru a Chaerdydd.

### Mae cyfran y tai a gwblhawyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) yn gostwng

Ar hyn o bryd, mae tua dwy ran o dair o'r tir yng Nghaerdydd ag adeiladau arno, a thraean yn gefn gwlad neu fannau agored. Tua 10 mlynedd yn ôl, roedd tai newydd yng Nghaerdydd bron yn gyfan gwbl ar safleoedd tir llwyd. Ailddatblygwyd llawer o'r rhain fel fflatiau, yn enwedig ym Mae Caerdydd ac ardaloedd canolog y ddinas. Er bod hyn yn lleihau'r galw ar safleoedd tir glas, effeithiodd hefyd ar gyflenwad yr ystod a'r dewis o dai, gyda goblygiadau o ran darparu tai fforddiadwy, tai teuluol a fforddiadwyedd yn gyffredinol.

Mae cyfran y datblygiadau ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi gostwng ers hynny, i 84% yn 2016/17, 59% yn 2017/18 a 58% yn 2018/19<sup>129</sup>. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn dyrannu saith safle datblygu strategol, y mae pump ohonynt ar dir glas (Ffigur 3.8.1).



**Ffigur 3.8.1 Dyraniadau tir strategol ar dir glas (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>128</sup> Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a GHD (2015) Ôl troed ecolegol a charbon Cymru, diweddariad hyd at 2011, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adroddiad-ol-troed-ecolegol-a-charbon-cymru.pdf>.


<sup>129</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynnyddol/Pages/Adroddiad-Monitro-Blynnyddol.aspx>



### Mae gan Gaerdydd dir amaethyddol o ansawdd da yn ei chymoedd

Dosberthir tir amaethyddol i bum gradd wahanol. Graddau 1, 2 a 3a yw'r 'tir gorau a mwyaf amlbwrpas': dyma'r tir sydd fwyaf hyblyg, cynhyrchiol ac effeithlon mewn ymateb i fewnbynnau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fap yn 2017 sy'n rhagweld ansawdd tir amaethyddol yn seiliedig ar y math o bridd, hinsawdd, gwlyptter, sychder, graddiant, dyfnedd pridd, faint o gerrig sydd a gwead. Mae'r map yn awgrymu bod cymoedd afonydd Caerdydd o ansawdd Gradd 1 a 2, a bod tir sydd heb ei ddatblygu yn y ddina yn Gradd 3a a 3b yn bennaf. Yn gyffredinol, nid y gefnen i'r gogledd o'r ddinas yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas (Ffigur 3.8.2).

Cododd gwerthoedd tir amaethyddol yng Nghymru yn sydyn cyn y dirwasgiad, wedi'u hysgogi'n rhannol gan ostyngiad sydyn yn y tir oedd ar gael i'w werthu, a'r gwerthoedd uwch yr oedd y rhai nad oeddent yn ffermwyr yn fodlon eu talu (Arolwg Marchnad Tir Amaethyddol Savills 2009). Fodd bynnag, fe wnaethant ostwng eto cyn 2020, yn rhannol oherwydd gostyngiad ym mhrisiau nwyddau ac ansicrwydd ynghylch Brexit<sup>130</sup>. Mae effaith pandemig y coronafeirws ar werthoedd tir yn aneglur.



**Ffigur 3.8.2 Dosbarthiad tir amaethyddol ar gyfer Caerdydd<sup>131</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>130</sup> <https://www.dailypost.co.uk/news/local-news/farmland-values-plunge-wales-farmers-17222717>

<sup>131</sup> <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/sum.12380>

### **Mae rhandiroedd Caerdydd yn bwysig i iechyd a diogelwch bwyd pobl, ond maent wedi eu gordanystrifio**

Mae rhandiroedd yn chwarae rhan bwysig wrth wella iechyd pobl. Nid yn unig y maent yn cynnig cyfle i dyfu bwyd ond maent hefyd yn darparu math ardderchog o weithgarwch awyr agored, ymarfer corff, ymlacio, a man lle gall pobl gwrdd â'i gilydd. Awgrymodd strategaeth rhandiroedd flaenorol Caerdydd y dylid darparu o leiaf 15 llain fesul 1000 o aelwydydd<sup>132</sup>. Mae'r ddarpariaeth bresennol o 2500 o rhandiroedd 5% yn fwy na hyn, er bod rhestrau aros o hyd ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhandiroedd<sup>133</sup>.

### **O ganlyniad i orffennol diwydiannol Caerdydd, gallai llawer o safleoedd fod wedi'u halogi**

Mae gweithgareddau diwydiannol yn y gorffennol wedi halogi tir mewn gwahanol ffyrdd dros flynyddoedd lawer. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o tua 1410 hectar o dir a halogwyd o bosib, gan gynnwys safleoedd diwydiannol, mwyngloddio a chwarela, dociau a hen safleoedd gwaredu gwastraff. Dim ond pan fydd datblygwyr yn cynnal ymchwiliadau safle ar dir sy'n cael ei ystyried i'w ddatblygu yn y dyfodol y daw rhai safleoedd tir halogedig i sylw'r Cyngor, felly gallai'r nifer hwn gynyddu yn y dyfodol.

Mantais datblygu tir halogedig yw glanhau tir a sicrhau adfywio er bod hyn yn arwain at gostau ychwanegol. Pan gaiff safleoedd tir llwyd eu haildatblygu, cânt eu gwneud felly fel arfer ar sail 'addas i'w defnyddio', ac felly mae'r gwaith adfer a wneir ar y safleoedd yn dibynnu ar y defnydd terfynol arfaethedig<sup>134</sup>. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adfer yn cynnwys ymarferiadau peiranyddol, er enghraifft capio dros y tir halogedig presennol gyda phriddoedd glân a fewnforiwyd, gan amgáu'r halogiad. Er bod hon yn fethodoleg adfer effeithiol gan ei bod yn torri'r llwybrau a'r dadleniad i'r halogiad, nid yw'n lleihau/chwalu nac yn dileu'r halogiad o'r safle.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Arolygu Tir Halogedig (Cyngor Caerdydd 2010) sy'n darparu fframwaith i nodi, archwilio ac adfer tir halogedig.

### **Mae gan Gaerdydd ddigon o gronfeydd mwynau i bara tua 20 mlynedd**

Mae adnoddau mwynau yn adnodd gwerthfawr ond cyfyngedig. Maent yn darparu'r deunyddiau crai hanfodol ar gyfer adeiladau, seilwaith ac i'w cynnal a'u cadw. Mae cyflenwad digonol a chyson o fwynau yn hanfodol i'r economi genedlaethol, ranbarthol a lleol ac mae eu hecsbloetio yn gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant economaidd ac ansawdd bywyd.

---

<sup>132</sup> Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 1993 ar gyfer Lloegr (strategaeth rhandiroedd Caerdydd 2005).

<sup>133</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Hamdden-parciau-a-diwylliant/Rhandiroedd/Pages/default.aspx>

<sup>134</sup> Er enghraifft, ni fyddai'r gwaith adfer a wneir ar safle ar gyfer datblygiad masnachol/diwydiannol yn addas i ddarparu ar gyfer dibenion preswyl, felly pe bai safle o'r fath yn cael ei ystyried ar gyfer datblygiad preswyl yn y dyfodol, mae'n debyg y byddai angen rhyw fath o waith adfer ychwanegol.

Caerdydd yw un o gynhyrchwyr a defnyddwyr mwynau mwyaf y rhanbarth. Mae mwynau naturiol yng Nghaerdydd yn cynnwys creigiau caled wedi'u cloddio (calchfaen carbonifferaidd a dolomit) a thywod wedi'i garthu a'i lanio yn Nociâu Caerdydd. Yn 2018, roedd cynhyrchu creigiau wedi'u malu yng Nghaerdydd ychydig dros filiwn o dunelli (mt) y flwyddyn<sup>135</sup>. Defnyddir y rhan fwyaf o'r mwynau naturiol hyn yn y diwydiant adeiladu fel agregau. Mae deunyddiau eilaidd, gan gynnwys slag gwaith dur, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio yn lle agregau naturiol, a swm sylweddol o wastraff adeiladu a dymchwel yn cael ei ailgylchu fel agregau.

Yr oedd y cronfeydd wrth gefn a ganiateir gan Gaerdydd o fwynau creigiau caled yn 2020 yn cyfateb i tua 20 mlynedd o gyflenwad<sup>136</sup>. Bydd y banc tir yn parhau i ostwng wrth i'r cronfeydd wrth gefn gael eu cloddio, gan dynnu sylw at yr angen i'w diogelu rhag datblygiad amhriodol. Mae'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys Ardal a Ffeirir ar gyfer gweithio mwynau a gellir trosglwyddo hwn yn ei flaen o'r CDLIN i fodloni'r gofyniad hwn.

### **Dyfodol tebygol heb y cynllun**

Mae'n ymddangos bod ôl troed ecolegol Cymru a Chaerdydd yn lleihau er, fel ar gyfer gwledydd eraill y Gogledd Byd-eang, mae'n dal yn sylweddol uwch na'r 'gyfran deg' un blaned. Bydd gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cefnogi'r duedd gadarnhaol hon, yn ogystal â lleihau'r angen i deithio. Mae rôl Brexit yn ansicr, ond gallai arwain at dyfu mwy o fwyd yn fwy lleol nag o'r blaen.

Bydd maint y tir glas yng Nghaerdydd yn crebachu wrth i ddatblygu fynd rhagddo ar y pum safle strategol maes glas. Oni bai bod mwy o safleoedd rhandiroedd yn cael eu creu, wrth i boblogaeth Caerdydd gynyddu, bydd swm y tir rhandir y pen yn gostwng ac efallai na chyrrhaeddir y targedau rhandiroedd mwyach. Er bod cronfeydd presennol a ganiateir o fwynau yn dal i gynrychioli banc tir sylweddol, er mwyn sicrhau parhad banc tir craig mâl o 10 mlynedd, mae'n debygol y bydd angen dyrannu adnoddau pellach yn y CDLIN.

---

<sup>135</sup> [https://www.swansea.gov.uk/media/37671/Regional-Technical-Statements-for-the-North-Wales-and-South-Wales-Regional-Aggregate-Working-Parties---2nd-Review---Main-Document/pdf/Regional\\_Technical\\_Statements\\_for\\_the\\_North\\_Wales\\_and\\_South\\_Wales\\_Regional\\_Aggregate\\_Working\\_Parties.pdf](https://www.swansea.gov.uk/media/37671/Regional-Technical-Statements-for-the-North-Wales-and-South-Wales-Regional-Aggregate-Working-Parties---2nd-Review---Main-Document/pdf/Regional_Technical_Statements_for_the_North_Wales_and_South_Wales_Regional_Aggregate_Working_Parties.pdf)

<sup>136</sup> Ibid.

### **3.9 Tirwedd a mannau agored**

#### **Cyflwyniad**

Mae gan Gaerdydd dirwedd unigryw sy'n cynnwys ynys, arfordir, tri dyffryn afon mawr a chefnlen o gefn gwlad ag iddi dopograffeg nodedig. Mae Mynydd y Garth, Mynydd Caerffili a Chraig Llanisien yn cynnig cefndir cryf a thrawiadol ar hyd ymyl ogleddol y ddinas. Mae'r gefnen yn codi i fil troedfedd uwchben lefel y môr ar gopa Mynydd Garth ac mae iddi lethrau serth amlwg ynghyd â llethrau is sy'n arwain i lawr at ymyl yr M4 ac ymyl ogleddol yr ardal drefol. Mae'r gefnen, sy'n ffurfio ymyl ddeheuol maes glo de Cymru, wedi ei bylchu'n ddramatig lle mae Afon Taf yn torri drwedd, gan ffurfio Ceunant Taf yn Nhongwynlais. Mae llawer o'r ardal drefol yn y gorllewin wedi'i hamgáu gan Lethrau Lecwydd, sy'n gefnlen ffisegol a gweledol gref. Yn wahanol i'r dopograffeg gref i'r gogledd a'r gorllewin, mae ymyl ddwyreiniol y ddinas, ger Aber Afon Hafren, yn wastad. Mae'n rhan o uned tirwedd hanesyddol lawer yn fwy, sef Gwastadeddau Gwent, sy'n ymestyn ar hyd Afon Hafren y tu hwnt i Gasnewydd.

#### **Mae tri o ddyffrynnoedd afon mawr yn rhedeg drwy'r ddinas**

Mae tri o ddyffrynnoedd afon mawr yn rhedeg drwy Gaerdydd. Mae'r dyffrynnoedd yn cynnwys ardaloedd mawr o ofod agored ac maent yn ffactor arwyddocaol sy'n dylanwadu ar ffurf drefol y ddinas. Maent hefyd yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer bioamrywiaeth, hamdden, diddordebau hanesyddol a diwylliannol.

Mae gan ddyffryn Afon Taf gysylltiadau hanesyddol cryf gan ei fod yn goridor pwysig ar gyfer symud nwyddau rhwng Dociau Caerdydd a chymoedd de Cymru. Mae'n hygyrch iawn gan gymunedau lleol ar ei hyd ac mae Llwybr Beicio Cenedlaethol, Llwybr Taf, yn dilyn ei llwybr yng Nghaerdydd a thu hwnt i Fannau Brycheiniog. Mae'n nodwedd arwyddocaol ac adnabyddus, gan fynd drwy Landaf, Canol y Ddinas a Bae Caerdydd.

Mae Afon Elái yn uno â'r Taf ym Mae Caerdydd ac hefyd yn ffurfio'r ffin weinyddol â Bro Morgannwg ar hyd ei rhannau isaf. Mae ei rhan orllewinol yng nghyffiniau Sain Ffagan o werth arbennig o uchel o safbwynt bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol.

I'r dwyrain o'r ddinas, mae Afon Rhymni yn ffurfio dyffryn â diffiniad amlwg iddo ac mae'n cynnwys yr unig aber llanw yn y ddinas (am fod Afon Taf ac Afon Elái yn rhedeg i Fae Caerdydd a ddelir y tu ôl i forglawdd rhag Aber Afon Hafren). Yn weledol, mae'r dyffryn yn amlwg iawn gan fod yr A48, un o'r prif lwybrau i'r ddinas, yn dilyn ymyl orllewinol y dyffryn i'r ddinas.

Mae llednentydd i'r afonydd hyn hefyd yn ychwanegu at ystod nodweddion tirwedd Caerdydd. Mae'r rhan fwyaf yn nentydd bach â'u dalgylchoedd o fewn cwmpas y ddinas. Fodd bynnag, mae rhai wedi dod yn goridoriau pwysig yn eu rhinwedd eu hunain fel Nant Fawr sy'n cynnwys amrywiaeth o fannau agored



poblogaidd gan gynnwys Parc y Rhath, sy'n atyniad pwysig ag iddo statws Baner Werdd. Paratowyd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r tri dyffryn afon a nodir uchod.

### **Mae'r glannau'n cyflwyno problemau a chyfleodd cymhleth**

Mae gan Gaerdydd arfordir ar Aber Afon Hafren gyda'i rychwant llanw enfawr, ond mae ei nodweddion a'i hygyrchedd yn dra chymysg. Mae Morglawdd Bae Caerdydd yn darparu mynediad cyhoeddus i'r arfordir yn y gorllewin ond nid yw'r draethlin i'r dwyrain ar hyd ardal y doc gweithredol ac i'r de o'r gwaith dur/gorsaf garthffosiaeth yn hygyrch ar hyn o bryd. I'r dwyrain o aber Afon Rhymini mae safle tirlenwi Ffordd Lamby, ac mae'n rhan o ddarn llawer hirach o arfordir heb ei ddatblygu sy'n rhedeg i Gasnewydd.

Mae'r arfordir sydd heb ei ddatblygu yn cynnwys gwastadeddau llaid a morfeydd heli sy'n erydu'n gyflym islaw'r marc dŵr uchel Yna ceir morglawdd sy'n rhedeg ar hyd y darn hwn o'r arfordir yr holl ffordd i Gasnewydd. Mae'r tir gwastad y tu ôl iddo yn rhan o Wastadeddau Gwent, ardal o dir a adferwyd o'r môr yn y cyfnod Rhufeinig sy'n cael ei ddraenio gan gymhlyg o ffosydd neu rewynau ('reens'). Mae'r tir hwn yn is na lefel y penllanw, ac felly'r angen am forglawdd.

### **Mae gan Gaerdydd bum Ardal Tirwedd Arbennig**

Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau) yn nodi rhannau o dirwedd Caerdydd yr ystyrir eu bod o ansawdd sy'n haeddu dynodiad lleol: ni chaniateir datblygu sy'n achosi difrod annerbyniol i gymeriad ac ansawdd y dirwedd mewn ATAau. Mae gan Gaerdydd bum ATA (Ffigur 3.5.1):

- Iseldir Sain Ffagan a Dyffryn Elái
- Cefnennau Mynydd y Garth a Phentyrch
- Fforest Fawr a Chefnen Caerffili
- Gwastadeddau Gwynllŵg
- Ynys Echni

### **Mae gan Gaerdydd un ar ddeg o brif ardaloedd cymeriad tirwedd**

Nododd adolygiad o ardaloedd cymeriad tirwedd yn 2007 un ar ddeg o ardaloedd cymeriad tirwedd (Ffigur 3.9.1):

1. Ucheldir Mynydd y Garth: Cefnlen amlwg, nodedig i ardal ehangach Caerdydd.
2. Cefnennau a Chymoedd Pentyrch: Ardal o dirwedd 'cefnen a dyffryn' sy'n gwrthgyferbynnu ag ucheldir serth Mynydd y Garth i'r gogledd a'r iseldir tonnog ysgafnach i'r de.
3. Iseldir y Gorllewin: Tirwedd o iseldir tonnog. Er iddo gael ei hollti gan ffyrdd fel traffordd yr M4, mae'n creu tirwedd amaethyddol cymharol unffurf.
4. Iseldir Sain Ffagan a Dyffryn Elái Ardal o iseldir gyda dyffryn afon a chymeriad tebyg i barcdir 'ystâd'.
5. Coridor Afon Taf: Tirwedd dyffrynnog sy'n cynnwys gwastadedd llifwaddodol Afon Taf.

6. Fforest Fawr a Chefnen Caerffili: Cefnennau a llechweddau calchfaen a thywodfaen serth sy'n gefnlen amlwg i'r ddinas.
7. Godreion Cefnen Caerffili: Llwybr eang o gefn gwlad tonnog rhwng troed cefnen Caerffili a choridor yr M4.
8. Iseldir y Dwyrain: Iseldir bryniog cefn gwlad ar ymyl ddwyreiniol Caerdydd, a nodweddir gan ddefnydd tir amaethyddol a gwrychoedd.
9. Coridor Afon Rhywni: Coridor gwyrdd allweddol o ddefnyddiau tir sydd braidd yn anghydweddol.
10. Gwastadeddau Gwynllŵg: Rhan o'r dirwedd isel o gorsydd arfordirol wedi'u hadfer o'r môr a adnabyddir fel Gwastadeddau Gwent. Wedi'i nodweddu gan rwydwaith o ffosydd tynnu dŵr i gaeau - rhewynau – bu'r ardal yn destun pwysau datblygu.
11. Ynys Echni: Ynys isel, bron yn gron, ym Môr Hafren tua 5 milltir i'r de-ddwyrain o Gaerdydd.




**Ffigur 3.9.1** Ardaloedd cymeriad tirwedd (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)



**Yn gyffredinol, mae Caerdydd wedi ei gwasanaethu'n dda gan fannau agored o fewn yr ardal drefol, ond mae rhai ardaloedd wedi eu tan-wasanaethu**

Mae mannau gwyrdd/agored yn bwysig gan eu bod yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl, yn annog gweithgarwch corfforol, yn ddeniadol, yn cefnogi bioamrywiaeth, yn gweithredu fel dalfa garbon, ac yn gallu helpu ar addasu i newid yn yr hinsawdd. Dangoswyd hyn yn arbennig yn ystod pandemig y coronafeirws, sydd wedi cyfyngu ar allu pobl i ymgymryd â mathau eraill o hamdden. Mae Ffigur 3.9.2 yn dangos yr holl fannau agored yng Nghaerdydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid darparu 2.43 hectar (6 erw) o fannau agored fesul 1000 o'r boblogaeth, wedi'i rannu'n ardaloedd ffurfiol, anffurfiol ac ardaloedd chwarae i blant. Mae'r arolwg diweddaraf o fannau agored yn dangos bod 1.17ha o le agored gweithredol<sup>137</sup> fesul 1000 o'r boblogaeth yng Nghaerdydd, o'i gymharu â ffigur cyfatebol o 1.18ha ddwy flynedd yn gynharach<sup>138</sup>. Os cynhwysir caeau chwarae y byd addysg, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 1.88ha; ac os caiff pob math o fannau agored eu cynnwys, y ffigur yw 8.03ha o fannau agored fesul 1,000 o'r boblogaeth, ymhell uwchlaw y targed dangosol a chynnydd o 8% o gymharu â 2016/17. Darperir mannau agored gweithredol ychwanegol sylweddol ar y cyd â'r safleoedd tai strategol mawr sydd ar gamau datblygu cynnar iawn neu sydd eto i ddechrau.



**Ffigur 3.9.2 Yr holl fannau agored yng Nghaerdydd**

Mae mannau agored gweithredol yn fannau agored sy'n gallu cael eu defnyddio'n benodol ar gyfer hamdden neu ddefnydd amrywiol. Bydd y defnydd yma yn cynnwys chwaraeon a hamdden ffurfiol ac anffurfiol, chwarae plant a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc er y gall cydbwysedd y defnydd diffiniedig newid gydag amser yn ôl y galw lleol. *Mannau agored yw pob man agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys nid dim ond tir, ond ardaloedd o ddŵr fel afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig o ran chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, ac sydd hefyd yn gallu gweithredu fel amwynder gweledol ac a allai feddu ar bwysigrwydd o ran cadwraeth a bioamrywiaeth.*

<sup>138</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Adroddiad-Monitro-Blynyddol.pdf>

Mae Ffigur 3.9.2 yn dangos bod rhai rhannau o Gaerdydd yn arbennig o ddiffygiol o ran eu mannau agored. Mae'r rhain yn cynnwys Cathays/Plasnewydd/Adamsdown, Y Sblot/Butetown, a Threganna/Glanyrafon. Mae'r ardaloedd â'r lefel isaf o fynediad at fannau gwyrdd yn cyfateb â rhai o'r ardaloedd sydd â'r canlyniadau iechyd gwaeth.

Yn ôl arolwg Holi Caerdydd 2019, roedd 87% o drigolion Caerdydd wedi ymweld â pharc lleol yn y mis cyn yr arolwg; roedd tri chwarter wedi ymweld â man allanol arall; ac roedd dwy ran o dair wedi ymweld ag afon, llyn neu gamlas; a'r traeth/môr/arfordir (Ffigur 3.9.3).<sup>139</sup> Mae hyn yn debygol o fod wedi cynyddu yn ystod pandemig y coronafeirws.


Derbyniodd Caerdydd record o ran gwobrau - 10 baner werdd - am ei pharciau yn 2016. Roedd 78.5% o ymatebwyr arolwg Holi Caerdydd 2016 yn fodlon ar barciau a mannau agored Caerdydd.<sup>140</sup>

Canfu astudiaeth o werth (o ran prisiau tai uwch) mynediad da at fannau gwyrdd mai gwerth cyfartalog bod wedi eich lleoli ger mannau gwyrdd yng Nghaerdydd oedd tua £4200 yn 2019, neu tua 2% o bris tŷ<sup>141</sup>. Unwaith eto, mae hyn yn debygol o fod wedi cynyddu yn sgil y pandemig.

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Mae Caerdydd yn mynd yn fwy trefol, gydag adeiladau dwysedd uwch, a mwy o ddatblygu ar safleoedd tir glas. Bydd y newidiadau hyn yn arbennig o nodedig yn y safleoedd datblygu strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol.

Mae unrhyw ddiffygion mewn mannau gwyrdd yn debygol o waethygu wrth i boblogaeth Caerdydd gynyddu, gweithio mwy o gartref, ac wrth iddi ddeall gwerth mannau gwyrdd.



Ffigur 3.9.3 Ymweliadau preswylwyr Caerdydd â mannau gwyrdd<sup>142</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

<sup>139</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Caerdydd%20Library/Ask%20Cardiff%202019%20Adroddiad.pdf>

<sup>140</sup> Ibid.

<sup>141</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/valuinggreenspacesinurbanareas/ahedonicpriceapproachusingmachinelearningtechniques>

<sup>142</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Caerdydd%20Library/Ask%20Cardiff%202019%20Adroddiad.pdf>



### 3.10 Gwastraff

#### Cyflwyniad


Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau heriol ar gyfer ailgylchu a chompostio sy'n sbarduno newid tuag at arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy: Rhaid i awdurdodau lleol Cymru ailgylchu o leiaf 64% o wastraff ailgylchadwy trefol erbyn mis Ebrill 2020, ac o leiaf 70% erbyn 2024/25.

#### Ychydig a wyddom am wastraff adeiladu a dymchwel, a gwastraff diwydiannol a masnachol, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwastraff yn ne ddwyrain Cymru

Yn hanesyddol, gwastraff adeiladu a dymchwel fu'r elfen wastraff fwyaf ei maint yn ne-ddwyrain Cymru, gan gyfrif am fwy na hanner yr holl wastraff a gynhyrchwyd (55% yn 2005/06) – gweler Ffigur 3.10.1. Cesglir data am wastraff adeiladu a dymchwel yn achlysurol yn unig ac mewn modd nad ydynt yn gymaradwy, felly nid yw'r sefyllfa bresennol yn hysbys. Yn achlysurol yn unig hefyd y cesglir data ar wastraff diwydiannol a masnachol, a oedd i gyfrif am 25% o'r holl wastraff yn ne-ddwyrain Cymru yn 2005/06. Mae targedau atal gwastraff yn 1.4% ar gyfer gostyngiad blynyddol ar gyfer gwastraff diwydiannol, ac 1.2% ar gyfer gwastraff masnachol.

#### Mae cyfraddau ailgylchu yn gwella'n gyflym ar ôl cwblhau cyfleuster ailgylchu newydd a chyflwyno cynllun ailgylchu

Yn hanesyddol, roedd cyfraddau ailgylchu a chompostio Caerdydd ar gyfer gwastraff trefol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru: dim ond 10% o'r ffrwd gwastraff trefol a ailgylchwyd yn 2004/05 o'i gymharu â chyfradd ailgylchu Cymru o 22%. Fodd bynnag, gwelodd hyn yn gyflym drwy gyflwyno cynllun ailgylchu integredig ymyl y ffordd. Erbyn 2019, roedd Caerdydd yn ailgylchu tua 60% o'i gwastraff<sup>143</sup>. Yn 2018, ehangodd y cyngor y ddarpariaeth finiau ar olwynion ymhellach, a threialu casgliadau gwyrdr ar wahân.



**Ffigur 3.10.1 Swm (mewn 000 tunnell) o sgil-gynhyrchion gwastraff yn ne-ddwyrain Cymru, 2005/06 (Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, 2008) (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>143</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/municipalwastearisings-by-localauthority-quarter>

### Mae gwastraff fesul person wedi gostwng yn sylweddol

Oherwydd y cynnydd cyflym ym mhoblogaeth Caerdydd, nid yw cyfanswm y gwastraff trefol a gynhyrchir yng Nghaerdydd wedi bod yn gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, mae gwastraff gweddilliol y pen (gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i ailddefnyddio ac sy'n cael ei anfon i adfer ynni neu gael ei waredu) wedi bod yn gostwng yn gyson (Ffigur 3.10.2), o dros 500kg/bl yn 2012/13 i 378kg/bl yn 2018/19.


### Mae safleoedd tirlenwi Caerdydd wedi cau ac mae cyfleusterau adfer ynni wedi agor

Mae swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi hefyd wedi gostwng yn gyflym, o 118,368 tonnall yn 2008/09 i 55,610 tonnall yn 2014/15. Cafodd y safle tirlenwi olaf yng Nghaerdydd, yn Ffordd Lamby, ei gau yn 2017 a'i gapio yn 2018. Ers 2015, mae'r rhan fwyaf o wastraff Caerdydd nad yw'n ailgylchadwy wedi bod yn mynd i Gyfleuster Adfer Ynni Caerdydd ym Mharc Trident: mae hwn yn trin 350,000 tonnall o wastraff y flwyddyn ac yn cynhyrchu 30MW o ynni. Mae gwastraff bwyd Caerdydd yn mynd i waith treulio anaerobig yn Tide Fields Road, Y Sblot.

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Mae cryn ansicrwydd ynghylch swm a math y gwastraff a gaiff ei gynhyrchu gan drigolion Caerdydd yn y dyfodol. Mae ffactorau sy'n effeithio ar dwf gwastraff yn cynnwys newidiadau i'r boblogaeth; ymddygiad defnyddwyr; effeithiolrwydd strategaethau lleihau gwastraff (gan gynnwys unrhyw newidiadau i strategaethau o'r fath ar ôl Brexit); a ffyniant economaidd y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i awdurdodau lleol ailgylchu o leiaf 70% o'u deunyddiau ailgylchadwy erbyn 2024/25. Mae'n cefnogi 'economi gylchol' a gwell effeithlonrwydd adnoddau. Yn 2019, cyhoeddodd adroddiad ar sut i leihau gwastraff<sup>145</sup>, sydd â'r nod o atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf. Cynigiwyd gwaith ynni o wastraff arall yn Newlands Road, Gwynllŵg, gan Môr Hafren Bio Power<sup>146</sup>: yn gynnar yn 2021, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ar hyn eto.



**Ffigur 3.10.2 Cyfanswm y gwastraff trefol a gesglir a gwastraff gweddilliol y pen<sup>144</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>144</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/municipalwastearisings-by-localauthority-quarter>; <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/annualresidualhouseholdwasteproducedperperson-by-localauthority>

<sup>145</sup> <https://eichcymruchi.senedd.cymru/3047/widgets/9989/documents/3412>

<sup>146</sup> <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/wentloog-incinerator-cardiff-llanrumney-rumney-16989049>


### 3.11 Dŵr a llifogydd

Mae ansawdd dŵr yn bwysig gan ei fod yn cefnogi bioamrywiaeth ac iechyd. Mae adnoddau dŵr a llifogydd yn dod yn fater cynyddol bwysig yn sgil newid yn yr hinsawdd.

#### Mae ansawdd dŵr afonydd Taf, Elái a Rhymini yn 'ddrwg i gymedrol'

Mae ansawdd dŵr prif afonydd Caerdydd wedi'i ddiraddio'n hanesyddol oherwydd gweithgareddau mwyngloddio, dŵr ffo trefol ac addasiadau ffisegol helaeth. Mae'r ansawdd dŵr wedi gwella dros amser wrth i welliannau gael eu gwneud i systemau draenio ac wrth i weithgareddau yn ymwneud â mwyngloddio ddirwyn i ben ymhellach i fyny 'r afonydd. Fodd bynnag, mae Afon Elái a'i dalgylch yn dal i fod mewn cyflwr gwael, a dim ond mewn cyflwr cymedrol y mae afonydd a dalgylchoedd Taf a Rhymini (Ffigur 3.11.1). Mae ansawdd dŵr daear yr ardal yn dda<sup>147</sup>.

Mae prif broblemau afonydd Caerdydd yn ymwneud ag addasiadau ffisegol: rhwystrau i fudo pysgod oherwydd coredau a chorlaniadau (*impoundments*), amddiffynfeydd rhag llifogydd, addasiadau trefol a draenio tir ar Wastadeddau Gwynllŵg. Yn ardaloedd poblog dwys Caerdydd, mae pwysau hefyd o du llygredd gwasgaredig trefol, carthion a cham-gysylltiadau (*misconnections*). Mae dyfroedd mwyngloddio hefyd yn parhau i effeithio ar ansawdd afonydd<sup>148</sup>.



**Ffigur 3.11.1 Ansawdd dŵr yn afonydd a chrynofeydd dŵr Caerdydd<sup>149</sup> (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**

<sup>147</sup> <https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/>

<sup>148</sup> [https://naturalresources.wales/media/679387/2016\\_updated-south-east\\_valleys\\_catchment\\_summary\\_nrw.pdf](https://naturalresources.wales/media/679387/2016_updated-south-east_valleys_catchment_summary_nrw.pdf)

<sup>149</sup> <https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/>


### Mae cyflenwadau dŵr Caerdydd yn ddiogel hyd at 2039/40

Mae Caerdydd yn rhan o<sup>150</sup> Barth Adnoddau Dŵr SEWCUS (System Defnydd Cysylltiol De Ddwyrain Cymru) a gyflenwir gan Dŵr Cymru. Daw dŵr ar gyfer parth SEWCUS o dros 40 o ffynonellau, ond yn bennaf o bum prif gronfa ddŵr: Cronfeydd dŵr Wysg, Tal-y-bont, Llandegfedd, Taf Fawr (cronfeydd dŵr Llwyn-onn, Cantref a'r Bannau), a Phontsticill. Mae'r cwmni dŵr wedi penderfynu y bydd digon o ddŵr (ond o ychydig) ar gyfer parth SEWCUS hyd at 2039/40 o dan ystod o dybiaethau am boblogaeth y dyfodol, defnydd dŵr fesul person, gostyngiadau mewn gollyngiadau a newid yn yr hinsawdd (Ffigur 3.11.2). Os bydd poblogaeth y parth, yn lle hynny, yn tyfu'n gynt na'r disgwyl, yna byddai diffyg yn y cyflenwad dŵr<sup>151</sup>.

### Mae llifogydd yn fygythiad arbennig i Gaerdydd oherwydd ei lleoliad arfordirol, ei hardaloedd tir isel a'i hafonydd

Gan fod Caerdydd ar dir sydd mor isel, peryg llifogydd efallai yw'r broblem fwyaf difrifol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae asesiad rhagarweiniol perygl llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2018 ar gyfer Afon Hafren<sup>152</sup> hefyd yn nodi Caerdydd – ac yn enwedig cymunedau Llaneirwg, y Rhath, Grangetown, Glanyrafon a Threganna – o fod mewn perygl sylweddol o lifogydd. Mae Ffigur 3.11.3 yn dangos ardaloedd o Gaerdydd sydd mewn perygl o lifogydd.

Yn 2013, roedd tua 22,000 o bobl yng Nghaerdydd yn wynebu perygl llifogydd ar lefel isel, roedd 2,800 mewn perygl canolig, ac roedd bron i 1,000 mewn perygl mawr o lifogydd. Bydd hyn wedi cynyddu wrth i boblogaeth Caerdydd gynyddu. Mae effeithiau llifogydd yn cynnwys ymsuddiant, lledaeniad halogyddion, premiymau yswiriant uwch a difrod i ddelwedd Caerdydd. Effeithir ar weithgareddau economaidd a seilwaith hefyd, fel y gwelir yn Nhabl 3.11.1. Gall yr amgylchedd naturiol gael ei effeithio hefyd, er enghraifft drwy lifogydd i safleoedd ar gyfer rheoliadau trwyddedu amgylcheddol (allyriadau diwydiannol) a thynnu dŵr trwyddedig (defnyddio dŵr at ddibenion diwydiannol). Mae hon yn broblem arbennig yn ne-ddwyrain Caerdydd<sup>153</sup>.



**Ffigur 3.11.2 Cyflenwad dŵr v. y galw ym Mharth Adnoddau Dŵr SEWCUS (Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)**


<sup>150</sup> System Defnydd Cysylltiol De Ddwyrain Cymru

<sup>151</sup> <https://www.dwrcymru.com/-/media/Files/My-Water/Water-Resources/DCWW-Final-WRMP19-Main-Technical-Report-Mar-19.pdf>

<sup>152</sup> <https://cdn.naturalresources.cymru/media/687716/pfra-severn.pdf>. (Rhag. 2015)

<sup>153</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Community-safety/Flood-and-Coastal-Erosion-Risk-Management/Documents/Cardiff%20Flood%20Risk%20Reoli%20Plan.pdf>





Ffigur 3.11.3 Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd(Ymwadiad: Ffynhonnell yn Saesneg yn unig)

Mae'r ffactorau canlynol yn effeithio ar berygl llifogydd yng Nghaerdydd:

- Mae cwblhau'r Morglawdd gan amgáu Bae Caerdydd wedi diogelu rhag gorlif llanw ym Mae Caerdydd. Yn ystod ymchwydd stormydd, rhaid cadw'r llociau ar gyfer rheoleiddio lefel y dŵr o fewn y Bae ynghau, gan greu "clo llanw". Yn ystod cyfnodau o glo llanw bydd lefel y dŵr yn y Bae yn cynyddu'n raddol wrth i Afonydd Taf ac Elái wagio i'r Bae. Gyda rhagweld y bydd lefelau'r môr yn cynyddu wrth i newid yn yr hinsawdd ddigwydd, bydd yr adegau y bydd y bae'n profi clo llanw yn amlhau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd afonydd Taf ac Elái yn dechrau cronni o'u hôl. Gallai hyn arwain at oblygiadau mawr i'r Bae a datblygiadau ar hyd rhannau is Afon Taf ac Afon Elái, yn enwedig ar adegau pan fo'r afonydd yn cludo llawer iawn o ddŵr o ganlyniad i law trwm.

	Cyfanswm yn ardal yr astudiaeth	Perygl llifogydd isel (rhwng 1 ym mhob 100 ac 1 ym mhob 1000 y flwyddyn)	Perygl llifogydd canolig (rhwng 1 ym mhob 30 ac 1 ym mhob 100 y flwyddyn)	Perygl llifogydd uchel (mwy nag 1 ym mhob 30 y flwyddyn)
Pobl	278,654	22,010	2,808	938
Gwasanaethau*	296	30	7	0
Eiddo amhreswyl	17,674	1,849	325	127
Ffyrdd (km)	49	11	5	3
Rheilffyrdd (km)	43	4	2	4
Tir amaethyddol	1,464	81	25	18

\* ysgolion, ysbytai, cartrefi nyrsio/gofal/ymddeol, gorsafoedd heddlu, gorsafoedd tân ac ambiwlans, carchardai, gwaith trin carthion a gosodiadau trydan

**Tabl 3.11.1 Pobl ac eiddo yng Nghaerdydd sydd mewn perygl o brofi llifogydd<sup>154</sup>**

- Mae Gwynllŵg mewn perygl o lifogydd oherwydd ei natur isel, y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr, a rhai ardaloedd lle mae perygl o frigo'r amddiffynfeydd arfordirol. . Bydd hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar y gwastadeddau llaid a'r morglawdd, yn enwedig yn ystod ymchwydd stormydd oherwydd natur y llanw ar Aber Afon Hafren. Mae gan sawl safle yn ardal Gwynllŵg ganiatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli.
- Mae rhannau isaf Afon Rhymni mewn perygl arbennig o lifogydd yn ystod ymchwydd stormydd pan all lefel y dŵr yn yr aber godi'n ddramatig, ynghyd â'r cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a'r cynnydd yng nghyfaint llif Afon Rhymni.

### Dyfodol tebygol heb y cynllun

Mae ansawdd dŵr yn bryder parhaus, gydag afonydd Caerdydd yn annhebygol o gyrraedd cyflwr 'da' erbyn dyddiad cau Cyfarwydeb Fframwaith Dŵr Ewrop yn 2027 (er nad yw'r Gyfarwydeb yn debygol o fod yn uniongyrchol gymwys ar ôl Brexit). Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni Dŵr Cymru yn dangos y dylai adnoddau dŵr fod yn ddigonol hyd at 2039. Mae llifogydd eisoes yn broblem sylweddol yng Nghaerdydd, ac mae'n debygol o waethygu dros amser, gyda newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr.

<sup>154</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/456967/LIT8969\\_FloodRiskMaps\\_Severn\\_SurfaceWater\\_v2.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/456967/LIT8969_FloodRiskMaps_Severn_SurfaceWater_v2.pdf)

## 4 Problemau a materion cynaliadwyedd presennol (Tasg A4)

Mae'r Gyfarwydddeb AAS yn gofyn am ddisgrifiad o "unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag [Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig]" (Atodiad Id).

Yn seiliedig ar y wybodaeth ym Mhenodau 2 a 3, mae Tabl 4.1 yn rhestru problemau a materion cynaliadwyedd allweddol presennol Caerdydd. Mae colofn olaf Tabl 4.1 yn crynhoi amodau tebygol Caerdydd yn y dyfodol pe bai'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn parhau, heb i'r CDLIN gael ei roi ar waith. Bydd hyn yn bwysig yn ddiweddarach yn y broses asesu, pan fydd yr ACI yn ystyried effeithiau cronol y CDLIN ynghyd â chamau gweithredu eraill.

**Tabl 4.1 Materion cynaliadwyedd allweddol a phrif broblemau Caerdydd**

Allwedd:

Testun:	Y brif broblem cynaliadwyedd			Nid y brif broblem		
Statws presennol, dyfodol tebygol:	Cyflwr da	Cyflwr cymharol dda	Cyflwr canolradd	Cyflwr cymharol wael	Cyflwr gwael	Chyflwr anhysbys

Pwnc	Statws presennol	Dyfodol tebygol heb y CDLIN
<b>1. Mynediad, cydraddoldeb a phoblogaeth</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu erbyn 2039, er bod y rhagolygon yn amrywio o ran graddfa'r cynnydd hwn.</li> <li>Mae cost tai - yn enwedig tai teuluol - yn eithrio'r rhai ar incwm isel rhag ymuno â'r farchnad dai. Mae darparu ystod a dewis priodol o dai ar gyfer y twf hwn yn y boblogaeth (gan gynnwys gwasanaethau a seilwaith) yn fater cynaliadwyedd allweddol.</li> <li>Mae gan Gaerdydd gyfran uwch o lawer o oedolion ifanc a lleiafrifoedd ethnig na chyfartaledd Cymru, ac mae ei phoblogaeth yn heneiddio.</li> <li>Mae Caerdydd yn gartref i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - yn ddaeryddol mae yna grynodiad o amddifadedd ym 'mwa deheuol' y ddinas.</li> <li>Mae hawliadau budd-dal diweithdra wedi dyblu yn ystod pandemig y coronafeirws.</li> <li>Mae gan Gaerdydd nifer sylweddol o bobl ddigartref. Mae llawer o'r rhain wedi'u cartrefu yn ystod pandemig y coronafeirws, ond mae eu dyfodol tymor hwy yn parhau i fod yn ansicr.</li> </ul>		
<b>2. Ansawdd aer</b>		



Pwnc	Statws presennol	Dyfodol tebygol heb y CDLIN
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pedwar ardal rheoli safon yr aer yng Nghaerdydd sydd wedi eu seilio ar lefelau NO<sub>x</sub>. Er bod ansawdd aer yn y ddinas yn gwella'n gyffredinol yn unol â thueddiadau cenedlaethol, a gall hyn gael ei helpu gan newidiadau ar ôl y pandemig, mae gan AQMA Dinas Caerdydd yn arbennig lefelau NO<sub>2</sub> sy'n parhau yn gyson uwchlaw'r trothwy cyfreithiol.</li> <li>Mae lefelau gronynnau (PM<sub>10</sub>PM<sub>2.5</sub>) yn bryder.</li> </ul>		
<p><b>3. Bioamrywiaeth, fflora a ffawna</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae safleoedd cadwraeth natur y ddinas sy'n bwysig yn rhyngwladol – ACA Coed Ffawydd Caerdydd ac ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren – mewn cyflwr da ar y cyfan, ond mae pwysau hamdden a threfoli yn effeithio arnynt.</li> <li>Effeithir yn arbennig o negyddol ar adar gwlypdir Aber Afon Hafren.</li> <li>Ychydig o wybodaeth sydd i'w chael am fioamrywiaeth Caerdydd yn fwy cyffredinol, a fydd yn cyfyngu ar y gallu i ragweld effeithiau'r CDLIN.</li> </ul>	?	?
<p><b>4. Newid yn yr hinsawdd</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nod Caerdydd yw dod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Mae allyriadau CO<sub>2</sub> eisoes yn lleihau, ond yn llawer rhy araf i gyrraedd y targed hwn heb weithredu ychwanegol ar unwaith.</li> <li>Er bod y defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu'n raddol dros amser, cyn y pandemig coronafeirws roedd 50% o deithiau cymudo yn dal i gael eu gwneud mewn car. Mae poblogaeth gynyddol Caerdydd yn debygol o arwain at fwy o deithiau mewn ceir, gydag ansawdd aer gwael cysylltiedig, damweiniau traffig ac iechyd gwael; er y gellir gwrthbwysu hyn yn rhannol gan newidiadau i ffordd o fyw ar ôl y pandemig.</li> <li>Mae Caerdydd yn gyrchfan ddenu mawr i gymudwyr o rannau eraill o ddeddwyrain Cymru.</li> <li>Mae'r defnydd o ynni mewn adeiladau yn gyfrifol am tua thraean o allyriadau nwyon tŷ gwydr Caerdydd: mae angen i adeiladau newydd fod yn fwy effeithlon o ran ynni.</li> </ul>		
<p><b>5. Treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae atyniadau diwylliannol a hanesyddol Caerdydd yn denu nifer fawr o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyflawni rôl genedlaethol/ranbarthol bwysig.</li> <li>Mae disgwyl i arena gerddoriaeth fyw agor yn 2024.</li> <li>Yn 2015, roedd 27 o adeiladau rhestredig Caerdydd mewn perygl, ac roedd 116 mewn cyflwr bregus.</li> <li>Mae nifer cynyddol o drigolion Caerdydd yn siarad Cymraeg. Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2019 - 2022 yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg fel nodwedd werthu unigryw i Gaerdydd.</li> </ul>		?
<p><b>6. Economi</b></p>		



Pwnc	Statws presennol	Dyfodol tebygol heb y CDLIN
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cynnal perfformiad Caerdydd yn hanfodol ar gyfer lles economaidd y rhanbarth a Chymru. Mae Caerdydd wedi profi twf cryf mewn swyddi, ac mae bron i hanner gweithwyr Caerdydd yn un o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ddinistriol ar y sectorau manwerthu a lletygarwch.</li> <li>Mae gweithlu Caerdydd wedi'i begynnu rhwng gweithwyr mwy cymwys a gweithwyr isel eu cymwysterau neu ddi-grefft; mae crynodiadau sylweddol o ddiweithdra mewn rhannau o'r ddinas; ac mae sylfaen addysg a sgiliau poblogaeth Caerdydd yn amrywio'n sylweddol.</li> <li>Mae ardaloedd sylweddol o dir cyflogaeth wedi bod yn newid i ddefnyddiau eraill (tai yn arbennig) o ganlyniad i newid patrymau cyflogaeth ac amodau'r farchnad.</li> </ul>		?
<b>7. Iechyd a llesiant</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gyffredinol, mae iechyd poblogaeth Caerdydd ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, ond mae dros hanner oedolion Caerdydd dros bwysau neu'n ordev.</li> <li>Mae 'bwa deheuol' y ddinas yn sgorio'n isel ar ystod eang o feini prawf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae anghydraddoldebau iechyd yn y ddinas yn arbennig o amlwg, gyda'r grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd â disgwyliad oes iach 20+ mlynedd yn llai na'r grwpiau lleiaf difreintiedig.</li> <li>Mae pandemig y coronafeirws wedi dangos pwysigrwydd mynediad i fannau gwyrdd ar gyfer lles meddyliol a chorfforol.</li> <li>Mae lefelau troseddu yng Nghaerdydd wedi gostwng ychydig dros amser, ond mae lefelau ofn troseddu wedi cynyddu.</li> </ul>		
<b>8. Tir, pridd a mwynau</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ôl troed ecolegol Caerdydd yn fwy na'r 'gyfran deg' fyd-eang</li> <li>Er bod bron pob tŷ newydd wedi'i adeiladu ar dir llwyd ddeng mlynedd yn ôl, yn fwyaf diweddar mae hyn wedi bod tua 58-59%. Mae'r CDLI presennol wedi dyrannu safleoedd tir glas newydd mawr i'w datblygu.</li> <li>Mae rhandiroedd Caerdydd yn bwysig i iechyd a diogelwch bwyd pobl, ond maent wedi eu gordanysgrifio, a bydd angen mwy.</li> </ul>		
<b>9. Tirwedd</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan Gaerdydd dirwedd unigryw, ac mae ganddi chwe Ardal Tirwedd Arbennig lle gellir cyfyngu ar ddatblygiadau ar sail tirwedd.</li> <li>Mae gan Gaerdydd 1.17ha o fannau agored gweithredol fesul 1000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â'r 2.43ha a argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Os yw pob math o fan agored wedi'i gynnwys, y ffigur yw 8.03ha o fannau agored i bob 1,000 o'r boblogaeth.</li> </ul>		

Pwnc	Statws presennol	Dyfodol tebygol heb y CDLIN
<b>10. Gwastraff</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwastraff adeiladu/dymchwel yw'r cyfrannwr mwyaf i'r ffrwd wastraff, wedi ei ddilyn gan wastraff masnachol/diwydiannol a threfol (aelwydydd). Ychydig a wyddom am y meintiau a gynhyrchir neu'r gyfran a ailgylchir.</li> <li>Mae cyfanswm y gwastraff trefol a gynhyrchir wedi aros fwy neu lai yr un fath dros y degawd diwethaf, ond mae cynhyrchu gwastraff fesul person wedi gostwng yn sydyn.</li> <li>Mae ailgylchu yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sydyn, o 10% yn 2004 i tua 60% ar hyn o bryd.</li> </ul>		
<b>11. Dŵr a llifogydd</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ansawdd dŵr y rhan fwyaf o grynofeydd dŵr Caerdydd yn gymedrol, ond yn Afon Elái mae'r ansawdd yn wael.</li> <li>Disgwylir i gyflenwadau dŵr fod yn ddigonol dros gyfnod y CDLIN, er bod angen mesurau effeithlonrwydd dŵr.</li> <li>Mae ardaloedd mawr o Gaerdydd mewn perygl o lifogydd oherwydd natur isel y ddinas. Mae cymunedau Llaneirwg, y Rhath, Grangetown, Glanyrafon a Threganna mewn perygl yn enwedig.</li> </ul>		

## 5 Fframwaith ACI (Tasg A5)

Cynigir dau fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) fel ffyrdd o asesu cynaliadwyedd y CDLIN wrth iddo ddatblygu. Byddai fframwaith lefel polisi – a ddangosir yn Nhabl 5.1 - yn cael ei ddefnyddio i asesu gweledigaeth, amcanion, dewisiadau strategol amgen a pholisïau'r cynllun. Y meini prawf fyddai:

--	Negyddol mawr o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol
-	Mân negyddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol
+/-	Cadarnhaol a negyddol
0	Effaith niwtral.
+	Mân gadarnhaol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol
++	Cadarnhaol mawr o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol
?	Ansicr - Effaith ansicr neu anhysbys.

Byddai fframwaith lefel safle – Tabl 5.2 - yn cael ei ddefnyddio i asesu safleoedd ymgeisiol i'w datblygu. Y rheswm am hyn yw bod angen gwybodaeth fanylach a meintiol i ganiatáu i safleoedd datblygu gael eu hasesu a'u cymharu. Yn ogystal, mae rhai meini prawf ACI sy'n berthnasol ar y lefel strategol un ai'n amherthnasol ar lefel y safle (e.e. oherwydd bod manylion y datblygiad posibl yn y dyfodol yn anhysbys neu'n aneglur) neu y byddent yn debyg ar gyfer pob safle (e.e. rheoli gwastraff). Mae'n bosibl y bydd Tabl 5.2 yn dal i gael ei fireinio, yn dibynnu ar yr haenau GIS sydd ar gael yng Nghyngor Caerdydd.

Mae Tabl 5.3 yn dangos sut mae fframweithiau'r ACI yn cyd-fynd â saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r broses ACI hefyd yn cefnogi Ffyrdd o Weithio Llesiant y Llywodraeth:

- Hirdymor: Mae'r ACI yn nodi'r sefyllfa debygol yn y dyfodol yn absenoldeb y cynllun; yn rhagweld effeithiau'r CDLIN sy'n datblygu; ac yn nodi effeithiau ac anghenion hirdymor
- Integreiddio: Mae'r ISA yn ystyried sut bydd y CDLIN yn effeithio ar wahanol amcanion cynaliadwyedd
- Cynnwys Pobl: Bydd y CDLIN sy'n datblygu a'i ACI yn agored i gyfranogiad gan y cyhoedd ar wahanol gamau (gweler Ad. 1.1 a 6)
- Cydweithio: Mae'r ACI wedi gofyn am, a bydd yn gofyn eto am gydweithrediad amrywiaeth o bobl (e.e. cynllunwyr, ecolegwyr, cynllunwyr trafndiaeth) er mwyn nodi effeithiau sylweddol a chynnig mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol sylweddol
- Atal: Nod yr ACI drwy ddiffiniad yw atal effeithiau negyddol sylweddol y CDLIN sy'n datblygu.

**Tabl 5.1 Fframwaith ACI ar gyfer gweledigaeth, amcanion, dewisiadau strategol amgen a pholisïau'r CDLIN**

Amcan ACI	Is-amcanion: A fydd y weledigaeth/amcan/dewis amgen/polisi...	Dangosyddion
1. Helpu i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i bawb	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwallu'r angen poblogaeth Caerdydd am gartrefi, swyddi a chyfleusterau cymunedol</li> <li>• Mynd i'r afael ag anghydwysedd presennol anghydraddoldeb, amddifadedd ac allgáu</li> <li>• Gwella mynediad i gyfleoedd addysg, dysgu gydol oes a hyfforddiant</li> <li>• Gwella mynediad i dai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer rhannau difreintiedig o gymdeithas</li> <li>• Gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, yn enwedig i bobl ifanc a phobl oedrannus</li> <li>• Cefnogi'r gwaith o adfywio ardaloedd difreintiedig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Maint y boblogaeth</li> <li>• Nifer aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd</li> <li>• Nifer a % yr ardaloedd cynnyrch ehangach is yng Nghaerdydd yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach is mwyaf difreintiedig ar gyfer Cymru</li> <li>• Pris tŷ cyfartalog o'i gymharu â chyflog blynyddol cyfartalog</li> <li>• Nifer a % yr unedau domestig a ddarperir ar gyfer tai fforddiadwy y flwyddyn</li> <li>• % y trigolion ar fudd-daliadau diweithdra</li> <li>• Nifer y rhai sy'n cyflwyno'n ddigartref a dderbyniwyd gan Gyngor Caerdydd fesul 1000 o aelwydydd bob blwyddyn</li> </ul>
2. Cynnal a gwella ansawdd aer	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau'r angen i deithio drwy'r lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd, darparu seilwaith trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo beicio a cherdded</li> <li>• Osgoi lleoli datblygiad newydd lle gallai ansawdd aer effeithio'n negyddol ar iechyd pobl</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Niferoedd yr ardaloedd rheoli ansawdd aer</li> <li>• Ansawdd aer mewn ARhAAau</li> </ul>
3. Diogelu a gwella bioamrywiaeth, fflora a ffawna	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal a chyflawni cyflwr ffafriol i safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol o bwysigrwydd cadwraeth natur (ACA, AGA a SoDdGA)</li> <li>• Cynnal hyd a lled a gwella ansawdd safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol (GNLlau a SoDdCNau) a chynefinoedd CGBLI â blaenoriaeth</li> <li>• Diogelu a gwella rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau CGBLI â blaenoriaeth</li> <li>• Cynnal a gwella cysylltedd coridorau cynefinoedd lled-naturiol</li> <li>• Darparu cyfleoedd i bobl brofi cynefinoedd a bywyd gwylt</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer a hyd a lled (mewn hectarau) o safleoedd dynodedig o bwysigrwydd (ACA, AGA, SoDdGA, GNLlau a SoDdCNau)</li> <li>• % o nodweddion safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol mewn cyflwr ffafriol (ACAau, AGAau, SoDdGAau)</li> <li>• Arwynebedd (mewn hectarau) o orchudd coetir hynafol</li> <li>• Cyfanswm (mewn hectarau) cynefinoedd â CGBLI â blaenoriaeth</li> </ul>



Amcan ACI	Is-amcanion: A fydd y weledigaeth/amcan/dewis amgen/polisi...	Dangosyddion
4. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi cadwraeth ynni a dylunio sy'n effeithlon o ran ynni</li> <li>• Hybu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy</li> <li>• Hyrwyddo patrymau defnydd tir effeithlon sy'n lleihau'r angen i deithio</li> <li>• Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o drafndiaeth a systemau trafndiaeth integredig</li> <li>• Lleihau natur fregus yr amgylchedd adeiledig i effeithiau newid yn yr hinsawdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl defnydd terfynol a sector</li> <li>• Cyfeintiau traffig (Km miliwn cerbyd)</li> <li>• Moddau teithio i ganol y ddinas at bob diben</li> <li>• Defnydd ynni cyfartalog yn y cartref (kWh)</li> </ul>
5. Diogelu a gwella treftadaeth hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol gan gynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth</li> <li>• Annog mynediad i'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol</li> <li>• Cefnogi cymeriad lleol a hynodrydd trwy ddylunio da</li> <li>• Cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• % yr adeiladau rhestredig 'mewn perygl'</li> <li>• % yr ardaloedd cadwraeth ag arfarniad a wnaed yn ystod y 10 mlynedd diwethaf</li> <li>• % trigolion Caerdydd sydd yn siarad Cymraeg</li> </ul>
6. Helpu i sicrhau twf economi gynaliadwy ac amrywiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd cyflogaeth</li> <li>• Cynyddu nifer a chyfran y swyddi yn Sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru</li> <li>• Cefnogi a gwella rôl Caerdydd fel sbardun economaidd allweddol i ddinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru</li> <li>• Hyrwyddo a chefnogi'r ganolfan ddinesig a chanolfannau lleol, cyfleoedd cyflogaeth lleol a datblygiadau defnydd cymysg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer o swyddi yng Nghaerdydd</li> <li>• Nifer a % y swyddi yn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru</li> <li>• Tâl canolrif gros llawn amser (£/wythnos)</li> <li>• % y boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth.</li> <li>• Faint o dir (mewn hectarau) sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth</li> </ul>
7. Gwella iechyd a llesiant	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd</li> <li>• Annog a hwyluso cerdded a beicio</li> <li>• Gwella mynediad i fannau agored, cefn gwlad a chyfleoedd eraill ar gyfer gweithgarwch corfforol</li> <li>• Gwella ansawdd yr amgylchedd drwy leihau effeithiau andwyol ar iechyd a llesiant yn sgil llygredd, llifogydd a rheoli gwaredu gwastraff</li> <li>• Hyrwyddo dylunio da sy'n lleihau effeithiau andwyol ar iechyd a llesiant yn deillio o droseddu a damweiniau traffig ar y ffyrdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y bwlch rhwng wardiau sydd â'r disgwyliad oes uchaf ac isaf, a disgwyliad oes iach</li> <li>• % yr oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew</li> <li>• Oedolion a ddywedodd eu bod wedi cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol yn ystod yr wythnos ddiwethaf</li> <li>• Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig</li> </ul>

Amcan ACI	Is-amcanion: A fydd y weledigaeth/amcan/dewis amgen/polisi...	Dangosyddion
8. Defnyddio priddoedd a mwynau'n effeithlon a diogelu eu hansawdd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailddefnyddio tir adfeiliedig a thir arall a ddatblygwyd o'r blaen</li> <li>• Adfer tir halogedig</li> <li>• Diogelu ansawdd pridd gan gynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a diogelu a gwella rhandiroedd</li> <li>• Diogelu adnoddau mwynau ac annog eu defnydd effeithlon a phriodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• % y tai a adeiladwyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol</li> <li>• Nifer ac arwynebedd (mewn hectarau) safleoedd a allai fod wedi'u halogi</li> <li>• Arwynebedd (mewn hectarau) o dir amaeth gradd 1, 2 a 3a</li> <li>• Arwynebedd rhandiroedd, nifer y lleiniau</li> <li>• Banc tir (mewn blynyddoedd) o gronfeydd mwynau</li> </ul>
9. Diogelu a gwella'r dirwedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella'r dirwedd gan gynnwys cefn gwlad, ardaloedd o werth tirwedd, dyffrynnoedd afonydd, mannau gwyrdd a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu</li> <li>• Diogelu a gwella Ardaloedd Tirwedd Arbennig Caerdydd</li> <li>• Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel yn unol â'i gyd-destun tirwedd</li> <li>• Cynyddu mynediad i fannau agored</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwynebedd (mewn hectarau) o dirwedd a warchodir gan ddynodiadau tirwedd lleol (Ardal Tirwedd Arbennig ac ardaloedd cadwraeth)</li> <li>• Cyflawni gofynion mannau agored ar gyfer hamdden</li> <li>• Ardaloedd o Gaerdydd o fewn 400m i fannau gwyrdd naturiol hygyrch</li> </ul>
10. Lleihau'r defnydd o adnoddau a lleihau gwastraff, cynyddu aildefnyddio ac ailgylchu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau ôl troed ecolegol Caerdydd</li> <li>• Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu</li> <li>• Hyrwyddo lleihau gwastraff, ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i adfer</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ôl troed ecolegol</li> <li>• Gwastraff masnachol a diwydiannol, gwastraff adeiladu/dymchwel, a gwastraff sgil-gynhyrchiol trefol bob blwyddyn</li> <li>• % y gwastraff trefol sy'n cael ei gompostio neu ei ailgylchu</li> <li>• Canolfannau ailgylchu gwastraff mawr, ynni-o-wastraff, treulio anaerobig ac ati</li> </ul>
11. Cynnal a gwella ansawdd ac adnoddau dŵr, a rheoli llifogydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw adnoddau dŵr a chynyddu effeithlonrwydd dŵr</li> <li>• Gwella ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dyfroedd daear ac ardaloedd arfordirol</li> <li>• Sicrhau bod ymagwedd rhagofalus yn cael ei defnyddio, a bod lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn rheoli risgiau a chanlyniadau posibl llifogydd i lefel sy'n dderbyniol.</li> <li>• Datblygiadau newydd i gynnwys systemau draenio cynaliadwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• % y darnau o afonydd sy'n cyflawni statws ecolegol da neu â'r potensial</li> <li>• Defnydd cyfartalog o ddŵr fesul aelwyd y flwyddyn</li> <li>• Ansawdd afonydd Caerdydd</li> <li>• Nifer o unedau tai newydd a gymeradwywyd mewn ardaloedd perygl llifogydd C1 a C2</li> <li>• Nifer o eiddo sydd mewn perygl o lifogydd afonydd a llifogydd arfordirol</li> <li>• Cyfran y datblygiadau newydd sydd â Systemau Draenio Dinesig Cynaliadwy</li> </ul>

**Tabl 5.2 Fframwaith ACI ar gyfer safleoedd ymgeisiol**

Amcan ACI	Y safle ymgeisiol yw...			
	+	+	-	--
1. Helpu i sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i bawb	Yn 10% isaf yr ACEHI ar gyfer MALIC yn gyffredinol	Yn 20% isaf yr ACEHI ar gyfer MALIC yn gyffredinol	Yn 50% isaf yr ACEHI ar gyfer MALIC yn gyffredinol	Yn 50% uchaf yr ACEHI ar gyfer MALIC yn gyffredinol
	Byddai'r safle'n arwain at weld ennil / gwella net ar y cyfleuster cymunedol			Byddai'r safle'n arwain at weld colli / gwaethgu net ar y cyfleuster cymunedol
2. Cynnal a gwella ansawdd aer	>200m o ARhAA		≤200m o ARhAA	Mewn ARhAA
3. Diogelu a gwella bioamrywiaeth, fflora a ffawna	>2km o safle AGA, ACA neu Ramsar	401m-2km o safle AGA, ACA neu Ramsar	≤400m o safle AGA, ACA neu Ramsar	Mewn safle AGA, ACA neu Ramsar
	>2km o SoDdGA	401m-2km o SoDdGA	≤400m o SoDdGA	Mewn SoDdGA
	>2km o GNL	401m-2km o GNL	≤400m o GNL	Mewn GNL
	>2km o SBCN	401m-2km o SBCN	≤400m o SBCN	Mewn SBCN
4. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n achosi newid yn yr hinsawdd ac addasu i'w effeithiau	<400 m o arhosfan bws ar gyfer bysiau sy'n rhedeg unwaith yr awr neu'n amlach	401-800m o arhosfan bws ar gyfer bysiau sy'n rhedeg unwaith yr awr neu'n amlach	801-1500m o arhosfan bws ar gyfer bysiau sy'n rhedeg unwaith yr awr neu'n amlach	>1500m o arhosfan bws ar gyfer bysiau sy'n rhedeg unwaith yr awr neu'n amlach
	<400 m o orsaf drenau	401-800m o orsaf drenau	801-1500m o orsaf drenau	>1500m o orsaf drenau
	<400m o ganol dinas / ganolfan ardal <sup>155</sup>	401-800m o ganol dinas/ganolfan ardal	801-1500m o ganol dinas/ganolfan ardal	>1500m o ganol dinas/ganolfan ardal
5. Diogelu a gwella'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg	>200m o ased treftadaeth		≤200m o ased treftadaeth	Yn cynnwys ased treftadaeth
	>200m o Ardal Gadwraeth		≤200m o Ardal Gadwraeth	Byw mewn ardal gadwraeth
	>200m o Ardal Archeolegol Sensitif		≤200m o Ardal Archeolegol Sensitif	Mewn Ardal Archeolegol Sensitif
7. Gwella iechyd a llesiant	<400m o fan agored	401-800m o fan agored	801-1500m o fan agored	>1500m o fan agored
8. Defnyddio priddoedd a mwynau'n effeithlon a diogelu eu hansawdd	Tir a ddatblygwyd o'r blaen			Tir maes glas
		Tir amaethyddol Gradd 3b-5 (os yw'n faes glas)	Tir amaethyddol Gradd 2 neu 3a (os yw'n faes glas)	Tir amaethyddol Gradd 1 (os yw'n faes glas)
9. Diogelu a gwella'r dirwedd	>2km o Ardal Tirwedd Arbennig	200m – 2km o Ardal Tirwedd Arbennig	≤200m o Ardal Tirwedd Arbennig	Mewn Ardal Tirwedd Arbennig
11. Cynnal a gwella ansawdd ac adnoddau dŵr, a rheoli llifogydd	>50m o grynofa ddŵr		<50m o grynofa ddŵr	Yn cynnwys crynofa ddŵr
	Ddim mewn parth llifogydd C1 neu C2		Mewn parth llifogydd C1	Mewn parth llifogydd C2

<sup>155</sup>Neu a allai, yn lle hynny, fod yn feddygfa a/neu'n ysgol gynradd

**Tabl 5.3 Cysylltiadau rhwng amcanion yr ACI a Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru**

Nod Llesiant		Amcanion ACI
1	Cymru ffyniannus Cymdeithas arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd rhyngwladol ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gyfrannol (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth sgilgar wedi ei haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi mwy o bobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy greu cyflogaeth o safon.	4, 6, 8, 10, 11
2	Cymru gydnherth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).	2-4, 11.
3	Cymru iachach: Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.	2, 7
4	Cymru fwy cyfartal: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd a chymdeithasol).	1
5	Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel a chydgyssylltiedig.	1, 9
6	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.	5
7	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang: Cenedl sy'n ystyried, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, p'un ai a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	3-6, 8-11



## **6 Y camau nesaf**

Mae'r adroddiad cwmpasu hwn yn cael ei agor i'r cyhoedd ac ymgynghoreion statudol ymgynghori arno o 28 Mai hyd 23 Gorffennaf 2021. Dylid anfon unrhyw sylwadau at [LDP@caerdydd.gov.uk](mailto:LDP@caerdydd.gov.uk) neu Dîm CDLI, Adran Gynllunio, Ystafell 219, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.